

Cyngor Celfyddydau Cymru

Côd Arfer Gorau


Awst 2018



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Tabl Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Cod Arfer Gorau ar gyfer Aelodau	6
	Cyfrifoldebau Corfforaethol Aelodau o'r Cyngor	6
	Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Cyngor	8
	Tâl, Treuliau a Manteision Ariannol eraill	11
	Lletygarwch a Rhoddion	12
	Gwrthdrawiadau Buddiannau	13
	Bod yn Agored ac yn Ymatebol	14
	Perthnasau ag aelodau o staff	14
	Dirprwyo Cyfrifoldeb	14
3	Cod Arfer Gorau ar gyfer Gweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru	15
	Dyletswyddau a Chyfrifoldebau	15
	Atebolrwydd	16
	Y Prif Weithredwr	16
	Ansawdd Gweinyddu	17
	Mynediad i Wybodaeth	18
	Trin Ceisiadau am Grant	18
	Perthynas ag Aelodau	19
	Amhleidioldeb a Chysylltiadau â Chyrff Allanol	19
	Gonestrwydd	21
	Lletygarwch a Rhoddion	21
	Defnyddio Adnoddau	22
	Gwybodaeth Swyddogol	22
	Ymgynghorwyr a staff eraill	23
	Datgelu er Lles y Cyhoedd	23
	Ar ôl Ymadael â Chyflogaeth	23
4	Gweithdrefnau ar gyfer Gweithredu Egwyddorion y Cod	24
	Mynediad i Wybodaeth	24
	Trin Ceisiadau am Gymorth Ariannol	24
	Cwynion yn erbyn Aelodau neu Gyfloegeion y Cyngor	29
	Pwyllgorau Ad hoc	29
	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	29

5	Cyfeiriadau	30
Atodiad A	Cynllun Cyhoeddi	32
Atodiad B	Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus	35
Atodiad C	Polisi ar Gofrestru a Datgan Buddiannau	36
Atodiad CH	Dirprwyo Awdurdod gan y Cyngor i'w Bwyllgorau ac i Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau	40
Atodiad D	Polisi Lletygarwch a Rhoddion i Staff	44
Atodiad DD	Gwneud Cwyn	46

1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gorff elusennol a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol gyda'r amcanion canlynol:

- a. datblygu a gwella'r wybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u harfer;
- b. cynyddu'r hygyrchedd i'r celfyddydau ar gyfer y cyhoedd;
- c. cynghori a chydweithio â Llywodraeth Cymru, Adrannau o'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cyngorau'r Celfyddydau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban a chyrrff eraill ar faterion yn ymwneud â'r amcanion yn (a) a (b) uchod; a
- ch. gweithredu'r amcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.1 Fel corff sy'n gweinyddu arian cyhoeddus wrth wasanaethu Cymru, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru bob amser:

- yn cadw at y safonau uchaf mewn ymagwedd ddiuedd, gonestrwydd a gwrthrychedd mewn perthynas â stiwardiaeth arian cyhoeddus a rheolaeth cyrrff o dan sylw;
- yn unol â pholisi'r llywodraeth ar fod yn agored a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn cydymffurfio â phob cais rhesymol am wybodaeth a fanylir yn Adran 4 "Mynediad i Wybodaeth" ac yn unol â Chynllun Cyhoeddi Model y Comisiynydd Gwybodaeth (Atodiad A);
- yn atebol i Lywodraeth Cymru, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Comisiwn Elusennau, defnyddwyr y gwasanaethau, dinasyddion unigol a staff am weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, ei stiwardiaeth dros arian cyhoeddus ac i ba raddau mae wedi bodloni ei amcanion allweddol a'r targedau perfformiad cysylltiedig;
- yn ymddwyn mewn ffordd sy'n hybu safonau uchel mewn atebolrwydd cyhoeddus, gan gynnwys hybu rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- yn sicrhau y cyflwynir gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol a darbodus o fewn yr adnoddau sydd ar gael a thrwy ddilysu perfformiad yn annibynnol pan fydd hynny'n ymarferol.

1.2 Perthynas â Llywodraeth Cymru a'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Ysgwyddodd Llywodraeth Cymru swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â'r celfyddydau ar 1 Gorffennaf 1999. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido

Cyngor Celfyddydau Cymru drwy gyfrwng grant ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Lywodraeth Cymru am wario'r grant. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru felly yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae telerau ac amodau cymorth grant Llywodraeth Cymru yn cael eu nodi yn Nogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru.

- Mae aelodau o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac yn atebol iddo.
- Cyngor Celfyddydau Cymru yw dosbarthwr arian y Loteri ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru hefyd. Dyrennir cyllid y Loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Pennir y fframwaith polisi ac ariannol y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu ynddo fel un o ddosbarthwyr enillion y Loteri Genedlaethol gan ddwy Ddeddf y Loteri ac mewn Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

1.3 Polisi'r Cyngor yw gwneud ei waith i'r safon uchaf o onestrwydd, effeithlonrwydd a chydag ymagwedd agored. Disgrifir y polisi hwn yn y Cod Arfer Gorau hwn. Mae'r Cod Arfer yn nodi'r safonau sydd eu hangen - ac y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl - gan bawb sy'n rhan o fusnes Cyngor Celfyddydau Cymru, yn cynnwys Aelodau'r Cyngor, aelodau o'i bwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol, a staff Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn nodi rhai gweithdrefnau a gynlluniwyd i roi ar waith yr egwyddorion a ymgorfforir yn y Cod Arfer neu i roi hawliau penodol i aelodau'r cyhoedd.

1.4 Rhoddir y Cod Arfer i bob aelod o'r Cyngor, ei Bwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol, ac i bob aelod o staff. Sicrheir bod copïau o'r Cod ar gael ar gyfer yr holl gyrff sy'n derbyn grant refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac fe'i rhoddir i eraill sy'n derbyn cymorth grant ar eu cais.

1.5 Mae copïau o'r Cod Arfer ar gael i aelodau'r cyhoedd yn rhad ac am ddim, o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Parc y Tywysog II
Rhodfa'r Tywysog
Bae Colwyn LL29 8PL

Y Mwnt
18 Stryd y Frenhines
Caerfyrddin SA31 1JT

Ffôn: 084 5873 4900

Ffacs: 029 2044 1400

SMS: 07797800504

Ffôn: 0845 8734 900

Ffacs: 01492 533677

SMS: 07797800504

Ffôn: 0845 8734 900

Ffacs: 01267 233084

SMS: 07797800504

e-bost: gwibodaeth@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Gwefan: www.cyngorcelfyddydaucymru.uk

2 Cod Arfer Gorau ar gyfer Aelodau

- 2.1 Mae'r adran hon o'r Cod Arfer yn berthnasol i aelodau o'r Cyngor, aelodau o Bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Ymgynghorwyr Cenedlaethol ac i bob unigolyn arall sy'n cymryd rhan ym musnes Cyngor Celfyddydau Cymru ar sail ymgynghorol neu wirfoddol.
- 2.2 Drwy gydol y Cod Arfer, defnyddir y gair "aelodau" i gynnwys y grŵp eang a ddisgrifir ym mharagraff 2.1, oni nodir fel arall.
- 2.3 Rhoddir copïau o'r Cod Arfer i bob aelod wrth iddynt gael eu penodi a gofynnir iddynt ddilyn ei ddarpariaethau. Trafodir achosion o dorri'r Cod Arfer gyda Chadeirydd y Cyngor a gall hyn arwain at gais am ymddiswyddiad yr aelod. Hefyd rhoddir Siarter Cyngor Celfyddydau Cymru, Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'w rôl.
- 2.4 Caiff Aelodau'r Cyngor hefyd gopi o Ddogfen Fframwaith Cyngor Celfyddydau Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Cyfrifoldebau Corfforaethol Aelodau o'r Cyngor

- 2.5 Mae gan Aelodau o'r Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus. Mae cyfrifoldebau corfforaethol pwysig eraill yn cynnwys:
 - sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol a rheolaeth Cyngor Celfyddydau Cymru o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a gytunwyd â Llywodraeth Cymru;
 - goruchwyllo cynhyrchu Cynllun Corfforaethol sy'n cynnwys gofynion Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau'r Cynllun Corfforaethol, sy'n elfen allweddol yng nghyfrifoldebau Aelodau o'r Cyngor, yn adran 3.4 o'r Ddogfen Fframwaith;
 - sicrhau bod arian cyhoeddus - y dylid cymryd ei fod yn cynnwys pob ffurf ar dderbynebau o ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill - yn cael ei ddiogelu; a bod y corff bob amser yn ymddwyn mor effeithlon, effeithiol a darbodus â phosibl, gan roi ystyriaeth lawn i'r darpariaethau statudol perthnasol;
 - goruchwyllo cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, y mae'n rhaid iddo roi cyfrif llawn o'r defnydd o arian cyhoeddus, a sicrhau y caiff y rhain eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, unrhyw ganllaw arall a gyhoeddir o dro i dro gan Lywodraeth Cymru a'r Trysorlys. Mae Adran

3.13 o'r Ddogfen Fframwaith yn nodi manylion pellach ar gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol;

- sicrhau bod y Cod Arfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth yn cael ei weithredu drwy Adran 4 y Cod Arfer Gorau hwn;
- sicrhau bod y safonau uchel o lywodraethu corfforaethol yn cael eu cadw bob amser;
- goruchwyllo cyflwyno canlyniadau wedi eu cynllunio drwy arolygu perfformiad yn erbyn cyfarwyddiadau strategol a thargedau y cytunwyd arnynt;
- sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru, wrth wneud penderfyniadau, wedi ystyried unrhyw ganllaw a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- sicrhau nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau. Mae'n rhaid iddo gadw o fewn terfynau ei Siarter Frenhinol, a gweithredu o fewn gofynion y gyfraith am elusennau a thelerau ac amodau cymorth grant Llywodraeth Cymru; ac mae'n rhaid iddo weithredu yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â'r defnydd o arian cyhoeddus;
- goruchwyllo'r trefniant ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau i Bwyllgorau, Ymgynghorwyr Cenedlaethol ac aelodau o'r staff;
- sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth gyflogi berthnasol a'i fod yn cyflogi staff cymwys fydd yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r safonau uchel a ddisgwyllir gan staff gwasanaethau cyhoeddus;
- sicrhau bod cyngor a hyfforddiant arbenigol addas ar gael i aelodau a staff;
- sicrhau bod y trefniadau ar gyfer recriwtio a rheoli staff yn darparu ar gyfer penodi a dyrchafu yn ôl haeddiant ar sail cyfle cyfartal i bob ymgeisydd ac aelod o staff. Wrth benodi i swyddi uwch staff, dylai Cyngor Celfyddydau Cymru fodloni ei hun y caiff amrywiaeth digonol o ymgeiswyr cymwys ei ystyried ac y ceir cystadleuaeth agored ar bob achlysur heblaw amgylchiadau eithriadol;
- penodi, gyda chymeradwyaeth y Gweinidog a ddynodir gan yr adran sy'n noddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn Llywodraeth Cymru, Brif Weithredwr ac arolygu perfformiad y Prif Weithredwr;
- ymdrin yn rhagweithgar â materion cyfleoedd cyfartal a hybu amrywiaeth yn holl waith Cyngor Celfyddydau Cymru;

- sicrhau y gweithreda Cyngor Celfyddydau Cymru Gynllun y Gymraeg sy'n hyrwyddo sy'n unol â Mesurau a Safonau'r Gymraeg a ddiffinnir gan y gyfraith;
- sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr agenda Llesiant ac yn gweithredu polisiâu ac arferion yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.6 Gwelir gwybodaeth bellach am rôl aelodau o'r Cyngor yn adran 2.5 o'r Ddogfen Fframwaith.

2.7 Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru fel corff corfforaethol o dan Siarter Frenhinol. Mae'n dilyn, os gwneir penderfyniad yn erbyn Cyngor Celfyddydau Cymru, y byddai unrhyw setliad ariannol yn cael ei wneud allan o arian Cyngor Celfyddydau Cymru yn hytrach nag o asedau personol Aelodau unigol o'r Cyngor (ond gweler paragraff 2.16 isod).

Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Cyngor

2.8 **Cyfrifoldebau'r Cadeirydd.** Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb dros ddarparu arweiniad strategol effeithiol ar faterion fel:

- llunio strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
- cynrychioli safbwyntiau Cyngor Celfyddydau Cymru ar faterion pwysig i'r cyhoedd;
- sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru, wrth wneud penderfyniadau, yn cymryd ystyriaeth gywir o bolisiâu cyffredinol y Llywodraeth gan gynnwys y rhai dros ddatblygiad addysgol a diwylliannol;
- annog safonau uchel o gywirdeb a hybu defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill ym mhob rhan o'r sefydliad;
- darparu asesiad o berfformiad aelodau unigol y Cyngor os ceir cais;
- hyrwyddo, gyda'r Prif Weithredwr, lles staff ac Arfer Gorau o ran telerau ac amodau gwasanaeth. Sicrhau cyfleoedd cyfartal a rhyddid rhag aflonyddu a bwlio personol;
- sicrhau ansawdd dda yn y gwasanaeth a gyflwynir ac yn y gwaith;
- sicrhau cydraddoldeb wrth gyflwyno gwasanaethau a rhoi grantiau.

2.8 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn; a bod cofnodion y cyfarfod yn cofnodi'n gywir y

penderfyniadau a wnaed, a, lle bo hynny'n briodol, safbwyntiau aelodau unigol y Cyngor.

- 2.9 Mae Cadeirydd y Cyngor yn cael ei benodi gan y Gweinidog a ddynodir gan yr adran sy'n noddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn Llywodraeth Cymru ac yn atebol iddo am reolaeth gorfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru a'i weithgareddau, ac felly ef yw'r sianel gyfathrebu arferol â'r Gweinidog. (Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu ar ran y Cyngor, ac mae ganddo gyfrifoldebau penodol ar wahân fel Swyddog Cyfrifo). Efallai y bydd aelodau unigol yn dymuno codi materion gyda'r Gweinidog y bydd yn eu hystyried yn bwysig i'w d/dyletswydd fel aelod o'r Cyngor. Os felly, mae hynny'n dderbyniol, ond dylid trafod materion o'r fath, fel mater o gwrteisi, gyda'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr i ddechrau. Yna bydd y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn ystyried a effeithir ar fuddiannau aelodau eraill o'r Cyngor ac, os felly, a ddylid ymgynghori â hwy ai peidio. Ni fwriedir i unrhyw beth a nodir uchod rwystro aelodau unigol y Cyngor rhag cyflawni eu dyletswyddau fel dinasyddion, fel y gwelant yn dda, neu i godi materion personol gyda'r Gweinidog (er enghraifft, parhau i fod yn aelodau o'r Cyngor yn wyneb pwysau oherwydd ymrwymadau eraill).
- 2.10 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod pob aelod o'r Cyngor yn cael gwybodaeth lawn, adeg ymgymryd â'r swydd, am delerau eu penodiad a'u dyletswyddau, hawliau a chyfrifoldebau. Bydd y Cadeirydd yn annog aelodau newydd i fynychu cwrs ymsefydlu ar ddyletswyddau aelodau neu ryw fath arall o hyfforddiant mewn perthynas â'u cyfrifoldeb newydd.
- 2.11 Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd yn codi o bryd i'w gilydd pan fydd angen i'r Is-Gadeirydd ddirprwyo dros y Cadeirydd. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr Is-Gadeirydd yn ysgwyddo holl gyfrifoldebau a dyletswyddau'r Cadeirydd.
- 2.12 **Dylai pob aelod unigol** fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ehangach. Yn debyg i rai eraill sy'n gwasanaethu'r cyhoedd, dylent ddilyn egwyddorion Nolan, a argreffir fel Atodiad B. Mae ar aelodau ddyletswydd i:
- gydymffurfio bob amser â Chod Arfer Da Cyngor Celfyddydau Cymru ac â'r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
 - gweithredu yn ddidwyll ac er budd Cyngor Celfyddydau Cymru;
 - peidio â defnyddio eu pwerau er eu budd eu hunain nac er budd unigolion na grwpiau eraill y maent yn gysylltiedig â hwy mewn unrhyw ffordd;

- trin y wybodaeth y maent yn ei derbyn yn rhinwedd eu gwaith yn gyfrinachol a sicrhau na chaiff ei defnyddio er eu budd hwy eu hunain;
- dod â'r un radd o ofal, diwydrwydd a medr i waith Cyngor Celfyddydau Cymru ag y buasent i reoli eu materion eu hunain;
- ystyried buddiannau gweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru gan sicrhau'r Arfer Gorau o ran telerau ac amodau gwasanaeth, cydraddoldeb cyfleoedd a rhyddid rhag aflonyddu a bwlio personol;
- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau Cyngor Celfyddydau Cymru ar dderbyn rhoddion a lletygarwch (gweler paragraffau 2.24 – 2.27).

Mae ar aelodau ddyletswydd gyffredinol o gyfrinachedd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn y gyfraith gyffredin. Gan hynny mae'n ofynnol iddynt ddiogelu gwybodaeth swyddogol a ddelir yn gyfrinachol. Ni ddylid cymryd dim yn y Cod Arfer fel trechu rhwymedigaethau sy'n bodoli dan statud neu o dan y gyfraith gyffredin i gadw'n gyfrinachol, neu i ddatgelu mewn achosion priodol, gwybodaeth benodol.

- 2.14 Disgwylir i aelodau beidio â chymryd swyddi plaid wleidyddol am dâl nac ymgymryd â rolau arbennig o sensitif neu broffil uchel yn ddi-dâl mewn plaid wleidyddol. Yn ddarostyngedig i hynny, mae aelodau'n rhydd i ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol, ar yr amod eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol ac ymarfer disgresiwn priodol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru. Ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith hwnnw, ni ddylent wneud areithiau gwleidyddol nac ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol eraill. Dylai aelodau ymatal rhag pob gweithgaredd gwleidyddol dadleuol.
- 2.15 Cyhoeddir canllawiau mwy penodol am ymddygiad gwleidyddol aelodau gan Lywodraeth Cymru yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Diben y canllawiau yn gyffredinol yw esbonio'r mathau o weithgareddau a allent ddigwydd yn ystod cyfnod yr ymgyrch, ac effaith y cyfyngiadau hyn ar Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
- 2.16 Yn yr un modd bydd y DCMS yn rhoi cyfarwyddyd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y cyfnod cyn dyfarnu trwydded y Loteri. Fel dosbarthwr y Loteri, does dim dylanwad gan Gyngor Celfyddydau Cymru dros ddyfarnu'r drwydded, ond rhaid i aelodau beidio â gwneud unrhyw beth y gallai cynigydd posib neu'r cyhoedd yn gyffredinol ei gamddechongli.
- 2.17 Fel arfer ni fydd aelodau unigol o'r Cyngor sy'n gweithredu yn onest, yn rhesymol ac yn ddi-dwyll yn atebol mewn cyswllt unigol. Er hynny, ceir

rhai amgylchiadau lle gall aelodau unigol fod yn atebol; er enghraifft, pan fydd aelod o'r Cyngor yn gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n achosi colled i drydydd parti neu pan fydd aelod yn camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd drwy rinwedd ei swydd. Dylai aelodau o'r Cyngor sydd angen cyngor pellach ar y materion hyn gysylltu â'r Prif Weithredwr.

Tâl, Treuliau a Manteision Ariannol Eraill

- 2.18 Elusen gofrestredig yw Cyngor Celfyddydau Cymru ac felly mae aelodau'r Cyngor yn gaeth i'r cyfyngiadau ar Ymddiriedolwyr Elusen. Mae hyn yn eu hatal rhag manteisio mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'w safle fel Ymddiriedolwyr, ag eithrio 2.19.
- 2.19 Yn dilyn diwygio erthygl 4(6) o Siarter Cyngor Celfyddydau Cymru, a chyda sêl bendith y Comisiwn Elusennau, mae Cadeirydd y Cyngor yn cael tâl am ei wasanaeth a daeth hyn i rym o 1 Ebrill 2004. Mae'r diwygiad hwn hefyd yn cynnwys tâl i aelodau eraill ar yr amod bod y Comisiwn Elusennau'n cytuno â hyn yn y lle cyntaf. Ar hyn o bryd dim ond tâl y Cadeirydd sydd wedi'i gytuno, ac felly nid oes yr un o'r aelodau'n cael tâl am eu gwasanaeth. Er hyn, gall Cyngor Celfyddydau Cymru "ad-dalu treuliau i unrhyw Aelod o'r fath a achosir yn rhesymol ganddynt wrth berfformio eu dyletswyddau." Mae'r un arfer yn berthnasol i'r rhai sy'n aelodau o Bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru. Gall Ymgynghorwyr Cenedlaethol sy'n hunangyflogedig neu sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain hawlio am golli enillion ar raddfa a bennir gan y Cyngor ac a adolygir bob blwyddyn.
- 2.20 Ni fydd unrhyw aelod o'r Cyngor (heblaw yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 2.19) yn gymwys i dderbyn grantiau, dyfarniadau, bwrsariau a thaliadau yn uniongyrchol gan y Cyngor (neu gan ddsbarthwr sy'n ddirprwyedig i'r Cyngor) yn rhinwedd y ffaith ei fod yn aelod unigol o'r Cyngor. Dyma waharddiad llwyr, hyd yn oed os caiff y rhain eu hargymell gan gorff heblaw'r un y mae'r aelod yn perthyn iddo. Nid effeithia hyn ar ar sefyllfa aelodau o'r Cyngor sy'n gyflogedig gan sefydliadau a ariennir gan y Cyngor. Yn yr achos hwn, deallir y caiff yr aelod o'r Cyngor dâl gan y sefydliad dan sylw yn hytrach na chan y Cyngor yn uniongyrchol. Bydd yn rhaid i aelodau ddatgan y budd yn y ffordd arferol ac ymabsennu o unrhyw drafodaeth yn y Cyngor sy'n ymwneud â'r sefydliad y mae ganddynt fudd ynddo. Mae polisi'r Cyngor am Gofrestru a Datgan Budd (Atodiad C) yn gymwys.
- 2.21 Mae hawl gan aelodau o bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru, ac eithrio Aelodau'r Cyngor, a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol i wneud cais am yr uchod, yn ddarostyngedig i bolisi Cyngor Celfyddydau Cymru ar Gofrestru a Datgan Buddiannau (Atodiad C). Dylai Ymgynghorwyr

Cenedlaethol gyfeirio at eu Prosbectws i gael gwybodaeth bellach am wneud cais am gymorth grant.

- 2.22 O bryd i'w gilydd gofynnir i aelodau o'r Pwyllgor gyflawni tasgau achlysurol penodol dros Gyngor Celfyddydau Cymru na fyddai disgwyl iddynt eu gwneud o fewn termau eu haelodaeth o un o bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru. Mewn achosion o'r fath gellir talu ffioedd rhesymol i aelodau o'r fath, ac eithrio aelodau o'r Cyngor, cyhyd ag y bo'r aelod o staff neu'r corff sy'n comisiynu'r gwaith yn fodlon na all y gwaith gael ei wneud yn fwy priodol gan berson nad yw'n aelod. Dylid cofnodi'r ffaith fod y gwaith yn cael ei wneud yn y Gofrestr Buddiannau (gweler paragraff 2.26 isod).
- 2.23 Gall Cadeirydd y Cyngor ofyn i aelodau, ac eithrio Aelodau'r Cyngor, sy'n gwneud gwaith proffesiynol i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyfnod estynedig, ymddiswyddo fel aelod. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelod ymddiswyddo os bydd o'r farn, wedi iddo ofyn cyngor y Prif Weithredwr, bod cymryd rhan mewn gwasanaeth tâl Cyngor Celfyddydau Cymru yn creu'r argraff i rywun o'r tu allan y byddai hynny'n amharu ar ei farn/ ei barn ddiuedd.

Lletygarwch a Rhoddion

- 2.24 Ni chaiff unrhyw aelod dderbyn rhodd dan yr amgylchiadau canlynol:
- os bydd y rhodd yn rhodd a fyddai'n ymddangos yn rhesymol i rywun o'r tu allan fel cymhelliant, ac
 - os bydd y rhodd gan sefydliad a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu gan sefydliad sy'n ymgeisio am arian, ac
 - os bydd gweithgareddau'r sefydliad hwnnw'n cyd-daro neu'n gorgyffwrdd â'r maes gwaith y bydd yr aelod yn gweithio ynddo ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, ac
 - os daw'r rhodd oddi wrth gorff neu berson y mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru berthynas fusnes ag ef, er enghraifft cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau.
Wrth benderfynu derbyn rhodd ai peidio, bydd angen i aelodau ddefnyddio eu crebwyll ac ni fyddant am achosi tramgwydd diangen. Dylai aelodau sydd ag unrhyw amheuaeth ar y materion hyn ymgynghori â'r Prif Weithredwr.
- Cedwir rhestr rhoddion gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ganolog yn Adran y Prif Weithredwr. Rhaid i aelodau wneud yn siŵr bod unrhyw rodd a dderbynnir yn cael ei nodi ar y rhestr hon.

2.25 Ni chaiff y canlynol eu hystyried fel cymhelliant:

- Rhoi tocynnau am ddim ar gyfer digwyddiadau y bydd gan yr aelod dan sylw ddiddordeb uniongyrchol ynddynt. Er bod derbyn ail docyn ar gyfer partner, ac am ddigwyddiadau priodol ar gyfer plant, yn dderbyniol, ni ddylai aelodau dderbyn tocynnau am ddim ar gyfer grwpiau mwy o berthnasau neu ffrindiau. Ceir rhagor o gyfarwyddyd ynghylch hawlio tocynnau yng Nghlanllaw Treuliau Cyngor Celfyddydau Cymru i'r Cyngor, Ymgynghorwyr Cenedlaethol ac Aelodau'r Pwyllgorau.
- Mae rhaglenni, catalogau, eitemau dathlu ac eitemau o werth isel yn dderbyniol naill ai lle y cânt eu dosbarthu i gynulleidfa eang mewn achlysur dathlu neu lle cânt eu derbyn ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru fel tystiolaeth o safon gwaith y sefydliad.

2.26 Caiff trefniadau ar gyfer cyswllt rhwng aelod a sefydliad a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn cynnwys trefniadau ar gyfer darparu bwyd lle bo hynny'n addas, eu gwneud gan aelod o staff Cyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, dylai aelodau ddefnyddio eu crebwyll er mwyn sicrhau na fyddant yn derbyn lletygarwch mewn amgylchiadau nac ar raddfa a fyddai'n ymddangos i rywun o'r tu allan fel cymhelliant.

2.27 Yn y cyd-destun hwn, nid oes angen ystyried darpariaeth o luniaeth ysgafn fel te a choffi, nac unrhyw letygarwch a fwriadwyd ar gyfer grŵp ehangach, er enghraifft cinio gwaith a digwyddiadau fel perfformiadau gala neu nosweithiau agoriadol. Dylai aelodau sy'n amau a ddylent dderbyn gwahoddiadau i achlysuron o'r fath gysylltu â'r Prif Weithredwr. Cynhelir cofrestr letygarwch ar gyfer aelodau.

Gwrthdrawiadau Buddiannau

2.28 Mae'n ofynnol i aelodau gofrestru a datgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelodau, yn unol â *Pholisi Cyngor Celfyddydau Cymru ar Gofrestru a Datgan Buddiannau* (Atodiad C). Bydd unrhyw fuddiannau a gofnodir yn parhau am gyfnod o flwyddyn ar ôl y dyddiad y daeth y berthynas i ben.

Bod yn Agored ac yn Atebol

2.29 Dylai aelodau gynnal eu holl ymwneud â'r cyhoedd mewn modd agored a chyfrifol gan sicrhau cydymffurfio'n llawn â'r *Polisi ar Fynediad i Wybodaeth* sydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru (gweler Adran 4). Lle bynnag y bo modd, ac mewn cydymffurfiaid gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn

gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad i gofnodion am ei benderfyniadau ac yn cyhoeddi'r trefniadau sydd wedi eu gwneud.

- 2.30 Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau y gall ddangos ei fod yn defnyddio adnoddau'n effeithiol, yn briodol, a heb seiliau am feirniadaeth bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preifat, tueddol na gwleidyddol. Rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru ymddwyn yn gyson â natur ei fusnes a'r angen posibl am gyfrinachedd ar seiliau masnachol neu eraill, yn ddarostyngedig bob tro i hawliau Llywodraeth Cymru ac Archwiliwr Cyffredinol Cymru, a rhai Senedd Prydain a'r Rheolwr Ariannol, i gael gwybodaeth. Hefyd rhaid i aelodau gydymffurfio â'r broses a amlinellir ym mharagraffau 4.13-4.15 wrth ymdrin â chwynion am fethu â darparu gwybodaeth.

Perthynas ag Aelodau o Staff

- 2.31 Mae swyddogaethau'r aelodau a'r staff yn wahanol. Mae'n ofynnol i staff drefnu bod gwybodaeth ac arbenigedd ar gael i aelodau i'w cynorthwyo yn y broses o lunio polisi, gwneud penderfyniadau ac arolygu cynnydd. Fel arfer ni ddisgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gohebiaeth ffurfiol gydag ymgeiswyr, cyfleu penderfyniadau i ymgeiswyr nac i'r cyhoedd, na gweithredu'r penderfyniadau hynny. Mae'n dilyn na ddylai aelodau gysylltu ag ymgeiswyr yn unigol nac â'r rheini sydd eisoes yn derbyn arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru heb roi gwybod a chael cytundeb yr aelod o staff priodol ymlaen llaw.
- 2.32 Anogir aelodau o'r Cyngor i wneud defnydd llawn o'u harbenigedd penodol wrth weithio'n agos â staff ar gelfyddydau neu bynciau perthnasol, ac wrth lunio polisiâu a chynlluniau gweithredu. Bydd gan aelodau o'r Cyngor ran hefyd mewn grwpiau Tasg a Gorffen yn ôl yr angen ac, o bryd i'w gilydd, gofynnir iddynt gynrychioli'r Cyngor mewn fforymau priodol.

Dirprwyo Cyfrifoldeb

- 2.33 Nodir polisi Cyngor Celfyddydau Cymru ar ddirprwyo cyfrifoldeb yn Atodiad CH.

3 Cod Arfer Gorau ar gyfer Gweithwyr Cyngor Celfyddydau

Cymru Gweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru – Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- 3.1 Mae'r adran hon o'r Cod Arfer yn nodi'r safonau a ddisgwylir gan Gyngor Celfyddydau Cymru o'i holl weithwyr. Mae'r Cod Arfer yn ei gyfanrwydd yn ffurfio rhan o amodau gwasanaeth staff Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 3.2 Mae staff yn cael copi o'r Cod Arfer adeg eu penodi ac mae'n ofynnol iddynt barchu ei ddarpariaethau. Mae Gweithdrefn Ddisgyblu Cyngor Celfyddydau Cymru yn delio ag unrhyw achosion o dorri'r Cod Arfer.
- 3.3 Disgwylir safon uchel o ymddygiad a pherfformiad gan staff ar bob lefel.

Y prif ofynion yw:

- y dylai swyddogaethau cyhoeddus gael eu cyflawni'n rhesymol ac yn unol â'r gyfraith;
 - y dylai safonau moesegol sy'n llywodraethu proffesiynau arbennig gael eu cydnabod;
 - y dylai polisiâu Cyngor Celfyddydau Cymru gael eu gweithredu yn effeithlon ac yn effeithiol;
 - y dylai gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru gael ei wneud gyda safon uchel o onestrwydd ac ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus;
 - y dylai arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio'n effeithiol a dylid rhoi cyfrif amdano; a
 - dylid trin aelodau o'r cyhoedd¹, aelodau a chydweithwyr yn gwrtais ac yn ystyrllon.
- 3.4 Fel mae paragraffau 3.38 – 3.39 yn dangos, mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn disgwyl safon uchel o ymddygiad gan y rheiny, fel ymgynghorwyr, y mae'n contractio iddynt i gyflawni tasgau penodol.
 - 3.5 Mae penodi staff yn digwydd yn unol ag arfer da ac yn cynnwys proses o hysbysebu swyddi gwag yn gyhoeddus, ceisiadau ysgrifenedig, llunio rhestr fer a chyfweld.

¹ Mae *cyhoedd* yn cynnwys artistiaid, sefydliadau artistig a chyflenwyr yr ydym yn delio â nhw, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol

Atebolrwydd

3.6 Dylai staff Cyngor Celfyddydau Cymru fod yn ymwybodol:

- o'u hatebolrwydd i'r Cyngor;
- bod swyddogaethau a rolau Cyngor Celfyddydau Cymru wedi eu nodi yn ei Siarter Frenhinol, a'r Ddogfen Fframwaith ac mewn perthynas â swyddogaethau Loteri, mewn Canllawiau Polisi ac Ariannol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- mai'r Gweinidog a ddynodir gan yr adran sy'n noddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw i Lywodraeth Cymru am annibyniaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae gan aelodau o'r Cyngor gyfrifoldebau fel cyflogwr. Pennir y rhain yng *Nghod Arfer Gorau i Aelodau* (Adran 2 o'r ddogfen hon).

3.7 Dylai staff Cyngor Celfyddydau Cymru ymddwyn gydag amhleidioldeb a gonestrwydd. Dylent beidio â thwylo neu gamarwain y Cyngor, Llywodraeth Cymru, Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon na'r cyhoedd yn wybodus, yn ddi-hid neu'n esgeulus.

Y Prif Weithredwr

3.8 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol o dan y Cyngor am drefniant, rheolaeth a staffio cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru ac am ei weithdrefnau mewn materion ariannol ac eraill, gan gynnwys ymddygiad, disgyblaeth ac apeliadau. Mae hyn yn golygu hybu gwerthoedd Egwyddorion Nolan (gweler Atodiad B) drwy arweinyddiaeth ac enghraifft. Dylai aelodau o'r Cyngor gefnogi'r Prif Weithredwr wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn.

3.9 Mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi cael ei ddynodi gan Lywodraeth Cymru yn Swyddog Cyfrifo Cyngor Celfyddydau Cymru. Hanfod y rôl yw cyfrifoldeb personol dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus mae ef/hi yn gyfrifol amdani; dros gadw cyfrifon priodol; dros weinyddu'n ddarbodus; dros osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnydd effeithiol ac effeithlon ar yr holl adnoddau sydd yn eu gofal. Y swyddog cyfrifo sy'n gyfrifol am weld bod cyngor priodol yn cael ei gynnig i'r Cyngor ar yr holl faterion hyn. Mae perfformiad boddhaol yn y cyfrifoldebau hyn yn sylfaenol i rôl y Prif Weithredwr. Mae canllawiau manylach ar rôl swyddog cyfrifo i'w gweld yn "Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru". Yn y cyswllt hwn mae'r Prif Weithredwr yn agored i gael ei

archwilio ar y materion hyn gan Bwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru neu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

- 3.10 Bydd achlysuron yn codi pan fydd sefydliadau'n anfodlon ar ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i'w sefyllfa a hwyrach y gofynnir am gyfarfod gyda'r Prif Weithredwr. Mae'r Cod Arfer yn nodi'r drefn ar gyfer cwynion (Adran 4 ac Atodiad DD) ac ni ddylid cyfaddawdu swyddogaeth y Prif Weithredwr drwy ei ddwyn i mewn i drafodaethau arferol gyda sefydliadau. Er hynny, gall sefyllfaoedd godi lle y gall cyfarfod anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr a sefydliad ddwyn ffrwyth. Yn yr amgylchiadau hyn gall y Prif Weithredwr, yn ôl ei dd/doethineb, gytuno i'r cais am gyfarfod.

Ansawdd y Gweinyddu

- 3.11 Dylai staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd wneud hynny gyda chydymdeimlad, yn effeithlon, yn brydlon a heb duedd neu gamweinyddiaeth. Dylai staff gynnig y safonau ymddygiad a gwasanaeth uchaf i'r cyhoedd. Yn y cyd-destun hwn, cymerir y term 'cyhoedd' i gynnwys artistiaid a chyrrff celfyddydol yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 3.12 Mae'n rhaid delio â gohebiaeth yn brydlon ac yn gwrtais bob amser gan gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol megis y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Er hynny, lle bydd ymateb llawn yn cymryd mwy o amser i'w baratoi, bydd cydnabyddiaeth yn cael ei hanfon yn dangos pryd y gellir disgwyl ateb llawn.
- 3.13 Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o wybodaeth arwyddocaol a gyflëwyd ar lafar mewn cyfarfodydd neu mewn sgysiau ffôn yn arbennig os bydd gwybodaeth o'r fath yn ddadleuol neu y gellid ei herio'n ddiweddarach.
- 3.14 Mae'n rhaid trin gwybodaeth a dderbyniwyd gan bob aelod o'r cyhoedd gyda chyfrinachedd haeddiannol. Pan fo gwybodaeth, data neu ddeunydd o unrhyw natur yn cynnwys data Personol neu ddata Personol Sensitif, yn ôl y diffiniad o'r ddau derm yn y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ni fydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhyddhau unrhyw wybodaeth gyfrinachol o'r fath i unrhyw drydydd parti heb gytundeb penodol y person dan sylw, oni fydd yn ofynnol o gwneud hynny o dan y gyfraith neu ddeddfwriaeth arall sy'n drech na hynny.
- 3.15 Wrth gysylltu â'r cyhoedd, bydd staff yn pwysleisio natur gorfforaethol penderfyniadau Cyngor Celfyddydau Cymru.

- 3.16 Mae'n rhaid i staff gydnabod yr angen am gymorth a chydweithio ar bob ochr. Er enghraifft, dylai'r cyfarwyddwyr sicrhau y caiff eraill eu hysbysu o ddatblygiad y drafodaeth y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddi.

Mynediad i Wybodaeth

- 3.17 Mae'n rhaid i'r staff fod yn hollol ymwybodol o ymrwymiad Cyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd mor rhydd â phosibl. Yn arbennig, dylent fod yn ymwybodol o ymrwymadau Cyngor Celfyddydau Cymru o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y nodir yn benodol yn Adran 4 y Cod.
- 3.18 Yn ychwanegol at ofynion Adran 4 o'r Cod Arfer, dylai staff gymryd y cam cyntaf i sicrhau bod y wybodaeth am gymorth ariannol ar gael i bob grwp ac unigolyn fydd yn dymuno gwneud cais. Hefyd, dylai staff sicrhau bod y rhai sydd â diddordeb gwirioneddol, yn arbennig sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru, yn cael eu cadw yn ymwybodol o ddatblygiadau polisi, cynlluniau ar gyfer gwerthuso a hynt yr ystyriaeth o geisiadau am grant.

Trin Ceisiadau am Grant

- 3.19 Dylai staff fod yn ymwybodol o ofynion trin ceisiadau am grant a gynhwysir yn Adran 4 o'r Cod Arfer ac mewn canllawiau mewnol.
- 3.20 Mae'r Cyngor yn ddibynnol ar staff ar gyfer darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfundrefnau ac unigolion sy'n gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru am gymorth. Mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn cynnal digon o gyswllt gyda sefydliadau ac unigolion wrth dderbyn arian (a darpar ymgeiswyr) i roi dealltwriaeth lawn iddynt o'r ffordd y mae'r sefydliadau a'r unigolion hynny yn gweithio a'u galluogi i roi cyngor diweddar a dibynadwy i aelodau.
- 3.21 Mae'n rhaid i staff sy'n gyfrifol am wasanaethu'r Cyngor, ei Bwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol o sicrhau y rhoddir y wybodaeth briodol i aelodau'r cyrff hynny fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg. Bydd hyn yn golygu archwilio ceisiadau am grant yn fanwl i sicrhau bod digon o wybodaeth wedi ei darparu. Bydd angen i staff hefyd benderfynu peidio â dosbarthu deunydd ategol os na fydd cynnwys neu fformat y wybodaeth a gyflenwyd yn debygol o fod o gymorth i aelodau. Fodd bynnag, os na chaiff gwybodaeth o'r fath ei dosbarthu, dylid rhoi syniad clir i aelodau'r cyrff hynny yn y papurau agenda bod y wybodaeth o dan sylw ar gael i'w harchwilio cyn ac yn ystod y cyfarfod. Mewn achosion lle bo'r penderfyniad yn un cymhleth a dadleuol, dylid tybio'n gryf y caiff aelodau'r holl wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd.

- 3.22 Nid yw unrhyw aelod o staff yn gymwys i dderbyn grantiau, dyfarniadau, addysgedau a thaliadau'n uniongyrchol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru. Mewn sefyllfaoedd lle bydd cyn aelodau o staff yn gwneud cais i Gyngor Celfyddydau Cymru am gymorth ariannol, cymerir gofal arbennig i sicrhau bod pob proses fewnol mewn perthynas â'r cais hwnnw mor wrthrychol a thryloyw â phosibl. Bydd yr un egwyddor yn wir am ymgynghorwyr neu gontractwyr tra byddant yn ymgymryd â gwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Perthynas ag Aelodau

- 3.23 Mae yna wahaniaeth amlwg rhwng swyddogaethau'r staff a'r aelodau. Swyddogaeth y staff yw darparu cyngor a gwybodaeth a fydd o gymorth i aelodau wneud penderfyniadau, gweithredu'r penderfyniadau hynny a'u hegluro i garfannau perthnasol o'r cyhoedd. Ym mhob un o'r prosesau hyn staff yn hytrach nag aelodau sydd â'r cyfrifoldeb o drafod gyda sefydliadau ac unigolion allanol. Ni ddylai staff ddatgelu cyfeiriadau cartref aelodau i drydydd parti ac ni ddylid disgwyl i aelodau orfod egluro penderfyniadau i ymgeiswyr yn y lle cyntaf.
- 3.24 Cyfeiriwch at baragraff 2.30 am wybodaeth bellach am y berthynas rhwng aelodau o'r Cyngor a staff.

Amhleidioldeb a Chysylltiadau â Chyrff Allanol

- 3.25 Dylai staff barchu polisi Cyngor Celfyddydau Cymru ar Gofrestru a Datgan Buddiannau (Atodiad C) mewn perthynas â buddiannau preifat a gwrthdrawiadau posibl â'r ddyletswydd gyhoeddus, datgelu gwybodaeth swyddogol a gweithgareddau gwleidyddol. Dylai staff beidio â chamddefnyddio eu safle swyddogol na gwybodaeth maent wedi ei chael drwy eu dyletswyddau swyddogol i hybu eu buddiannau preifat na buddiannau eraill. Dylai staff sicrhau bod unrhyw wrthdrawiadau buddiannau posibl yn cael eu nodi'n gynnar ac y cymerir camau priodol i'w datrys. Bydd unrhyw fuddiannau a gofnodir yn parhau am gyfnod o flwyddyn ar ôl y dyddiad y daeth y berthynas i ben.
- 3.26 Ni ddylai aelod o staff wneud unrhyw beth a allai beri amheuaeth nad yw ei g/chyngor i'r Cyngor yn ddiduedd. Mae'n dilyn na chaiff unrhyw aelod o staff dderbyn gwahoddiad i wasanaethu ar Fwrdd neu Bwyllgor cyfundrefn sy'n derbyn cymorth grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu sefydliad sy'n gofyn am gymorth grant. Caniateir aelodaeth neu gyflogaeth seml o sefydliad sy'n cael cymorth grant (neu o grŵp sy'n ei gefnogi). Serch hynny, ni chaniateir pan fo gweithgareddau'r sefydliad dan sylw yn gyfrifoldeb penodol a diffiniedig yr aelod hwnnw o'r staff.

- 3.27 Os derbynnir cais am gymorth ariannol gan gorff lle y bu cysylltiadau blaenorol neu lle bo cysylltiadau presennol rhyngddo â'r aelod o staff dan sylw, neu lle mae cysylltiad drwy berthynas agos h.y. rhieni, priod/partner, plant a brodyr a chwiorydd, isafswm y gofynion yw:
- y dylai ddatgelu'r cysylltiad hwn ar y Ffurflen Datgan Buddiannau ac fel rhan o unrhyw gyngor ysgrifenedig neu lafar y bydd yn ei gynnig; ac
 - y dylai'r datgeliad hwn gael ei gofnodi ar Ffurflen Arnodi Grant ar ôl y cyfarfod lle gwnaed penderfyniad.
- 3.28 Mewn amgylchiadau lle gall pwysigrwydd y penderfyniad neu agosrwydd y cysylltiad fwrw amheuaeth ar briodoldeb ac amhleidioldeb cyngor yr aelod o staff, dylai'r aelod o staff dan sylw ofyn am gyngor y Prif Weithredwr. Mae'r rhagdybiaeth yn debygol o olygu na ddylai fod ynghlwm wrth ddarparu cyngor neu lunio camau y dylid eu cymryd. Dan yr amgylchiadau hyn, gall fod yn briodol i'r aelod o staff ddilyn arferion *Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd* ym mharagraffau 3.1-3.5 o Atodiad C.
- 3.29 Gall staff wneud gwaith cyflogedig i sefydliadau a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Ond bydd yn rhaid i'r staff yn gyntaf ofyn barn eu Cyfarwyddwr, ac os bydd yn cytuno, wedyn cael caniatâd ffurfiol ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr. Dalier sylw: ni all y trefniant hwn gynnwys taliad uniongyrchol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru (fel y nodâ'n benodol ofynion 3.22 uchod). Os oes gan yr aelod hwnnw o'r staff gyfran reolaethol yn y sefydliad, neu y gall ei reoli i raddau helaeth neu os yw'n cael neu os caiff fudd ariannol o bwys oddi wrtho, ystyrir hyn yn daliad uniongyrchol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac felly ni chaniateir y fath daliad. Mae'r Prif Weithredwr yn cadw'r hawl i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl petai newid mewn amgylchiadau yn gwneud hynny'n angenrheidiol.
- 3.30 Mewn rhai amgylchiadau gall cymryd rhan yng ngweithgareddau cyrff (ac eithrio'r rhai a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) leihau effeithiolrwydd y staff. Mae'r rheolau canlynol a atgynhychwyd o Lawlyfr y Staff yn berthnasol i'r gweithgareddau na chawsant eu cynnwys ym mharagraff 3.26:
- Ni fydd Cyngor Celfyddydau Cymru fel arfer yn ymwneud â gweithgareddau allanol y bydd ei weithwyr yn cymryd rhan ynddynt. Mae hyn, fodd bynnag, ar yr amod bod staff ar gael i gwrdd â'r amodau gwaith y cytunwyd arnynt. Hefyd, disgwylir i staff beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau a allai achosi embaras i Gyngor Celfyddydau Cymru neu wrthdaro â'i waith.

- Lle y bydd gan weithwyr amheuaeth a fyddai unrhyw weithgaredd yr hoffent ei ddilyn yn debygol o fod yn annerbyniol dylent ofyn am gyngor gan eu cyfarwyddwyr adrannol. Mae yna drefniant dewisol i staff ofyn i weithgareddau allanol gael eu cymeradwyo ac mae ffurflen at y diben hwn ar gael o Swyddfa'r Prif Weithredwr.
- Mewn unrhyw achos, mae'n rhaid cael caniatâd ymlaen llaw bob amser gan y cyfarwyddwr adrannol perthnasol cyn i'r gweithiwr dderbyn gwaith allanol fydd yn golygu defnyddio amser neu adnoddau swyddogol neu bydd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at faes cyfrifoldeb yr aelod o'r staff dan sylw.

Gonestrwydd

- 3.31 Dylai staff beidio â defnyddio eu safle swyddogol i dderbyn, cytuno i dderbyn neu geisio cael unrhyw daliad neu ystyriaeth arall am wneud, neu am beidio â gwneud, unrhyw beth sy'n dangos ffafriaeth, neu anffafriaeth i unrhyw berson. Dylent beidio â derbyn manteision o unrhyw fath oddi wrth drydydd parti a allai'n rhesymol gael eu gweld yn cyfaddawdu eu barn bersonol a'u gonestrwydd. Dan Ddeddf Atal Llygredigaeth 1916 a Deddf Llwgwrwobrwyo 2010, gellir gofyn i weithwyr cyrff cyhoeddus brofi nad yw derbyn taliad neu ystyriaeth arall oddi wrth rywun y mae'n ymddangos iddo gael contract yn llwgr.

Lletygarwch a Rhoddion

- 3.32 Dylid darllen yr adran ganlynol mewn cysylltiad â Pholisi Lletygarwch a Rhoddion i Staff Cyngor Celfyddydau Cymru (Atodiad D).
- 3.33 Lle bydd aelodau o'r staff yn ymweld â sefydliad a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru (neu un sy'n ceisio cael ei ariannu), ni ddylent gytuno i gael prydau wedi eu darparu neu eu prynu drostynt. Er hynny, nid oes angen ystyried lluniaeth ysgafn fel te a choffi, ciniawau gweithiol, nac unrhyw letygarwch a fwriadwyd ar gyfer grwp ehangach, er enghraifft pryd tra'n gweithio a digwyddiadau fel perfformiadau gala neu nosweithiau agoriadol (ac eithrio lle y gellir dehongli lletygarwch o'r fath fel cymhelliant yng nghyd-destun penderfyniadau sydd ar fin cael eu gwneud). Dylai aelodau sy'n amau a ddylent dderbyn gwahoddiadau i achlysuron o'r fath ofyn cyngor y Prif Weithredwr.
- 3.34 Caiff cofrestr lletygarwch ei chadw yn ganolog gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd pob aelod o staff yn cofnodi yn y gofrestr pob lletygarwch a dderbyniwyd, er nad oes angen i staff gofrestru derbyn lletygarwch dibwys fel te, coffi neu luniaeth ysgafn arall a roddir iddynt wrth gynnal busnes arferol. Dylai pob cofnod yn y gofrestr gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- enw'r derbynnydd a'i swydd o fewn Cyngor Celfyddydau Cymru
- enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ddarparodd y lletygarwch
- swm a sylwedd y lletygarwch a ddarparwyd, a
- natur yr achlysur pryd y darparwyd y lletygarwch

3.35 Ni ddylai aelodau o staff dderbyn unrhyw roddion o unrhyw fath mewn unrhyw amgylchiadau. Byddai hyn yn cynnwys rhoddion oddi wrth unigolyn neu gorff a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, rhoddion oddi wrth unigolyn neu gorff sy'n gwneud cais am gyllid, rhoddion oddi wrth gyflenwr sy'n gwneud cais am contract na rhoddion a roddir yn rhad ac am ddim am unrhyw reswm. Er hynny, nid ystyrir y canlynol fel rhoddion:

- Rhoi tocyn am ddim ar gyfer digwyddiadau y bydd gan yr aelod o staff dan sylw ddiddordeb proffesiynol ynddynt.
- Er bod darparu tocynnau pellach yn dderbyniol i ganiatáu i bartner, ac am ddigwyddiadau priodol plant, yr aelod o staff fod yn bresennol, ni ddylai staff dderbyn tocynnau am ddim ar gyfer grwpiau mwy o berthnasau neu ffrindiau. Ceir cyfarwyddyd pellach ynglŷn â hawlio tocynnau yng Nghyfarwyddyd Treuliau Aelodau Staff Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Mae rhaglenni, catalogau, eitemau dathlu ac eitemau tebyg yn dderbyniol naill ai lle y cânt eu dosbarthu i gynulleidfa eang neu mewn achlysur dathlu lle cânt eu derbyn ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru fel tystiolaeth o safon gwaith y corff.

Defnyddio Adnoddau

3.36 Dylai staff wneud ymdrech i sicrhau defnydd priodol, darbodus, effeithiol ac effeithlon ar adnoddau.

Gwybodaeth Swyddogol

3.37 Mae ar staff ddyletswydd gyffredinol o gyfrinachedd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn y gyfraith gyffredin. Gan hynny mae'n ofynnol iddynt ddiogelu gwybodaeth swyddogol a ddelir yn gyfrinachol. Ni ddylid cymryd unrhyw beth yn y Cod Arfer fel trechu rhwymedigaethau statudol presennol na rhai'r gyfraith gyffredin i gadw'n gyfrinachol, neu mewn achosion priodol i ddatgelu, gwybodaeth benodol.

Dylai staff ymddwyn yn unol ag ymrwymadau Cyngor Celfyddydau Cymru o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y nodir ym mholisi Cyngor Celfyddydau Cymru ar Fynediad i Wybodaeth a welir yn Adran 4 o'r Cod Arfer hwn, a'i Gynllun Cyhoeddi (Atodiad A).

Ymgynghorwyr, Contractwyr a Staff Achlysurol Eraill

3.38 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn disgwyl y safon uchaf o ymddygiad gan yr holl unigolion y mae'n defnyddio eu gwasanaethau.

3.39 Mae'r adrannau o'r Cod Arfer ar brif ofynion (paragraff 3.3) cyfrinachedd (paragraff 3.14) a lletygarwch a rhoddion (paragraffau 3.32 - 3.34) yn berthnasol i'r rheini y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi contract iddynt yn achlysurol i wneud tasgau penodol. Mae'r gofynion o ran cyfrinachedd yn estyn i gyfieithwyr a ddefnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)

3.40 Caiff yr holl staff eu hysbysu am bolisi Cyngor Celfyddydau Cymru ar ddatgelu pan fyddant yn dechrau gweithio i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Ar Ôl Ymadael â Chyflogaeth

3.41 Dylai staff barhau i barchu eu dyletswydd cyfrinachedd (gweler paragraff 3.36) ar ôl iddynt ymadael â chyflogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.

3.42 Os ymedy aelod o staff â'i swydd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i weithio i sefydliad sy'n cael arian gan y Cyngor neu sy'n ceisio arian gan y Cyngor, pery budd i fodoli am gyfnod am flwyddyn o leiaf o'r dyddiad y daeth ei gyflogaeth i ben gyda'r Cyngor.

4 Gweithdrefnau ar gyfer gweithredu egwyddorion y Cod

4.1 Mae'r adran hon o'r Cod Arfer yn nodi'r ffyrdd o weithredu sy'n ymwneud â:

- Mynediad i Wybodaeth
- Trin Ceisiadau Grant
- Cwynion yn erbyn Aelodau neu Weithwyr y Cyngor
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Cyngor

Mynediad i Wybodaeth

4.2 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i wneud ei waith mewn dull mor agored â phosibl ac i gyhoeddi cymaint o wybodaeth ag sy'n rhesymol o ymarferol. Mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfrif o'r gwasanaethau a ddarparwyd, cost y gwasanaethau hynny, y personau sy'n gyfrifol am bob maes o waith, targedau a osodwyd, safonau a ddisgwylir a'r canlyniadau a gafwyd. Hefyd, bydd staff Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymryd y cam o ddsbarthu gwybodaeth i sefydliadau a ariennir ac eraill y mae eu hangen am wybodaeth (er enghraifft, fel darpar ymgeiswyr) yn amlwg iddynt (gweler Adran 3).

4.3 O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gall unrhyw berson ofyn am wybodaeth, lle nad oes mynediad parod i'r wybodaeth, trwy gyfrwng llythyr neu e-bost i Gyngor Celfyddydau Cymru. O dan y ddeddf fe all fod yn rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru roi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig os yw'r wybodaeth a geisir yn cael ei gadw ac nad oes unrhyw un o eithriadau'r Ddeddf yn berthnasol yn ei gylch. Os yw'r wybodaeth ar gadw ac nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw un o eithriadau'r Ddeddf, rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru ddarparu'r wybodaeth o fewn 20 diwrnod.

4.4 Mae'r rhan hon o'r Cod Arfer yn ymwneud â'r ffordd y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Ymrwymiad Cyngor Celfyddydau Cymru

4.5 Yn amodol ar baragraff 4.6 isod ac yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn:

- rhoi gwybodaeth lawn ar gynlluniau cymorth grant a'r gwasanaethau eraill y mae yn ei ddarparu;

- datgelu'r ffeithiau, a dadansoddiad o'r ffeithiau, sydd wedi ei arwain i lunio prif argymhellion a phenderfyniadau polisi;
- sicrhau bod canllawiau mewnol, llawlyfrau gweinyddol, nodiadau ar drefn a deunydd tebyg arall sy'n ymwneud ag ymdriniaeth Cyngor Celfyddydau Cymru â'r cyhoedd ar gael;
- darparu gwybodaeth ar bob mater arall sy'n ymwneud â pholisi, gweithrediadau, penderfyniadau a phob mater arall sy'n gysylltiedig â meysydd y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol amdanynt.
- sicrhau bod Cynllun Cyhoeddi ar gael sy'n nodi'r categorïau a'r dosbarthiadau o wybodaeth a fydd ar gael fel rhan o'r drefn, y ffurfiau bydd yr wybodaeth ar gael ynddynt, a manylion am unrhyw gostau a all fod yn berthnasol er mwyn cael mynediad i'r wybodaeth. At y diben hwn mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu dan y Cynllun Cyhoeddi Model gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eithriadau

4.6 Nodir nifer o eithriadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y gall fod angen eu hystyried mewn perthynas â chais. Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwmo i gyflenwi gwybodaeth mewn unrhyw ddull arbennig (e.e. drwy sicrhau bod dogfennau sydd eisoes yn bodoli ar gael) ac nid yw'n ymrwymedig o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i:

- gyflenwi gwybodaeth nad yw yn ei feddiant;
- darparu gwybodaeth sydd ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd;

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gall Cyngor Celfyddydau Cymru ddefnyddio eithriad addas pan fyddai rhyddhau'r wybodaeth honno yn:

- llesteirio trafodaeth effeithiol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru (e.e. drwy ddatgelu safbwyntiau unigolion);
- rhoi gweinyddiaeth cyfiawnder yn y fantol;
- arwain at enillion neu fantais annheg i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth (e.e. yng nghyd-destun tendro cystadleuol);
- tramgwyddo egwyddorion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol drwy dorri ar gyfrinachedd ar faterion personél mewn perthynas â phenodiadau; neu achosi tramgwyddo preifatrwydd drwy ddatgelu gwybodaeth am unigolyn heb gyfiawnhad;

- datgelu gwybodaeth a gyflenwyd yn gyfrinachol (yn cynnwys cyfrinachedd masnachol, cyfrinachau masnach ac eiddo deallusol) a lle byddai datgelu'r wybodaeth honno yn golygu tor cyfrinachedd agored i gyfraith;
- rhoi rhag-hysbysiad o gyhoeddiad neu ddatganiad sydd i'w wneud yn y dyfodol agos;
- llesteirio gweithrediad dilys cyfundrefn gelfyddydol neu gorff cyhoeddus;
- gofyn am wyriad afresymol o adnoddau, yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth bresennol, oherwydd ehangder y cais neu swm neu anhygyrchedd y wybodaeth y gofynnir amdani. Ni fydd Cyngor Celfyddydau Cymru ychwaith yn ymateb i geisiadau sydd yn amlwg yn flinderus a ddiffinnir gan unrhyw arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.7 Os gwrthodir cais am wybodaeth rhoddir manylion am yr eithriad(au) perthnasol ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau dros y gwrthodiad a rhoddir gwybod i'r person neu'r corff dan sylw fod ganddo hawl i ofyn am adolygiad mewnol o'r penderfyniad hwn ac i apelio at Y Comisiynydd Gwybodaeth os bydd yn dal yn anfodlon (gweler paragraffau 4.13 - 4.15 isod).

Amser a Thaliadau

- 4.8 Darperir gwybodaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Nod Cyngor Celfyddydau Cymru fydd bodloni pob cais am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais. Ond os nad oes modd bodloni cais cymhleth o fewn y cyfnod hwn, rhoddir amcangyfrif i'r person sy'n gofyn am wybodaeth o'r amser fydd ei angen i gyflawni'r cais.
- 4.9 Ni chodir tâl am ddarparu gwybodaeth os mai diben y cais fydd galluogi i'r person neu'r gyfundrefn dan sylw wneud gwell defnydd o wasanaethau Cyngor Celfyddydau Cymru. Ni chodir tâl ar berson na chyfundrefn ychwaith os bydd y cais ar gyfer egluro penderfyniad sy'n effeithio ar y person neu'r gyfundrefn honno.
- 4.10 Os na fydd y cais yn syrthio i un o'r categorïau hyn gall Cyngor Celfyddydau Cymru godi tâl. Ni chodir tâl ar geisiadau syml y gellir eu hateb yn hawdd. Er hynny, os na ellir bodloni cais heb ymchwil helaeth gellir codi tâl ar sail amcangyfrif rhesymol o'r gost dan sylw a'i amcangyfrif yn unol â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Mewn achosion o'r fath rhoddir gwybod i'r person sy'n gwneud y cais a gofynnir iddo gadarnhau ei barodrwydd i dalu'r gost dan sylw cyn ymgymryd â'r gwaith. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn

codi'r tâl, yn dilyn y drefn a nodwyd ym mharagraffau 4.13 - 4.15 isod. Mae polisi codi tâl Cyngor Celfyddydau Cymru yn nodi'r achosion lle y codir tâl, a'r broses a ddefnyddia Cyngor Celfyddydau Cymru i amcangyfrif, rhoi gwybod a chodi'r taliadau hynny.

Cyfrifoldeb dros Ddarparu Gwybodaeth

- 4.11 Bydd y cyfrifoldeb dros ddarparu gwybodaeth fel arfer yn nwylo'r adran o Gyngor Celfyddydau Cymru dan sylw.
- 4.12 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi penodi uwch aelod o staff i fod yn gyfrifol am oruchwyllo darparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae cyfrifoldebau'r Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio yn cynnwys:
- cyd-drefnu darparu gwybodaeth na ellir ei darparu gan un adran o Gyngor Celfyddydau Cymru;
 - wedi ystyried yr amrywiol eithriadau a all fod yn berthnasol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, awdurdodi gwrthod rhoi gwybodaeth a chytuno ar y sail y caiff cais ei wrthod.
 - rhoi arweiniad ar godi tâl a gosod lefel y tâl sydd i'w godi, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r hyn a nodir ym Mholisi Codi Tâl Cyngor Celfyddydau Cymru.

Ni fydd y Prif Weithredwr yn cymryd rhan yn y broses a ddisgrifir yn (b) ac (c) uchod.

Apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio â darparu gwybodaeth

- 4.13 Caiff person neu gorff sy'n dymuno gofyn am adolygiad o benderfyniad i beidio â darparu gwybodaeth, neu i godi tâl, ei wahodd i ysgrifennu at y Prif Weithredwr gan ofyn am arolwg mewnol a nodi'r sail dros anghytuno â phenderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 4.14 Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried y gŵyn. Os penderfynir na ddilynwyd gweithdrefnau'n gywir ac y dylid datgelu'r wybodaeth ychwanegol, gwneir hyn mewn 20 diwrnod o'r penderfyniad i ddatgelu.
- 4.15 Mae gan unrhyw berson neu gorff sy'n anfodlon ar ganlyniad adolygiad Cyngor Celfyddydau Cymru yr hawl i apelio'n ysgrifenedig at y Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod: Y Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaerllion, SK9 5AF.

Trin Ceisiadau am Gymorth Ariannol

- 4.16 Mae'r adran hon yn amlinellu'r modd o drin ceisiadau am gymorth ariannol a safonau'r gwasanaeth y gall ymgeiswyr ddisgwyl eu derbyn.
- 4.17 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth lawn am grantiau ar argaeledd grant ar gael ar raddfa eang. Bydd y wybodaeth yn cynnwys manylion am ffyrdd o wneud ceisiadau, eu ffurf a'u cynnwys, y meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried ceisiadau a'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau.
- 4.18 Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynd ati i adennill unrhyw fenthyciadau, grantiau neu anfonebau nas talwyd. Ni all diffygdalwyr wneud cais am arian pellach hyd nes y sicrhawyd canlyniad boddhaol.
- 4.19 Caiff pob cais am grant ei gydnabod o fewn saith diwrnod gwaith ei fod wedi cyrraedd y Cyngor. Bydd y gydnabyddiaeth hon yn rhoi amserlen y penderfyniad.
- 4.20 Bydd staff Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau y bydd aelodau o'r Pwyllgorau neu'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol sy'n gyfrifol yn gyntaf am ystyried ceisiadau yn y lle cyntaf yn derbyn digon o wybodaeth ar bob cais i'w galluogi i gyrraedd penderfyniad hyddysg yn unol â Gweithdrefn Asesu Grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 4.21 Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau y bydd pob cais am gymorth ariannol yn cael eu hystyried yn ddiudedd ac yn gyfrinachol. Cynlluniwyd y trefniadau a nodwyd yn Adran 3 o'r Cod Arfer hwn ac yn Atodiad C er mwyn sicrhau na chaniateir i unrhyw un â buddiant perthnasol mewn cais am grant gymryd rhan yn y broses sy'n arwain at benderfyniad. Ni chaiff yr wybodaeth a gynhwysir mewn ceisiadau, a fernir ei bod o natur bersonol neu gyfrinachol, ei datgelu i drydydd parti heb awdurdod yr ymgeisydd.
- 4.22 Bydd caeirydd y grŵp sy'n gyfrifol am bwneud penderfyniad yn ysgrifennu at yr ymgeisydd yn cyfleu ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru o fewn yr amser a amlinellir yn y llythyr sy'n cadarnhau derbyn y cais. Os gwrthodwyd cais bydd y llythyr yn rhoi rhesymau cryno dros y penderfyniad.
- 4.23 Ni all unrhyw apêl gael ei gwneud yn erbyn penderfyniad ar haeddiannau cais, nac ynglŷn â chais rhywun arall.
- 4.24 Mae Atodiad DD yn rhoi manylion am y gweithdrefnau apelio sydd ar gael i'r rhai sy'n anfodlon ar yr ymateb i'w cais.

Cwynion yn erbyn Aelodau neu Gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru

- 4.25 Mae'r ddogfen **Cyngor Celfyddydau Cymru – Gweithdrefn Gwyno**, Atodiad DD sydd ar gael i'w llwytho i lawr oddi ar ein gwefan, yn nodi bod angen i Gyngor Celfyddydau Cymru ymateb yn briodol i bob cwyn.

Pwyllgorau Ad Hoc

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

- 4.26 Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i gynghori a darparu sicrwydd ar ddigonoldeb trefniadau'r archwiliad mewnol, allanol a llywodraethu corfforaethol
- 4.27 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn bwyllgor o'r Cyngor ac mae'n adrodd wrth y Cyngor hwnnw.
- 4.28 Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gefnogi'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy y mae'r sicrwydd llywodraethu, rheoli perygl, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.
- 4.29 Yn enwedig mae'n gyfrifol am adolygu systemau Rheolaeth Fewnol yn rheoli perygl, rheolaeth, llywodraethu, gweithgarwch ariannol ac arall y Cyngor i gynorthwyo hybu'r safonau uchaf o briodoldeb wrth ddefnyddio arian cyhoeddus ac annog cyfrifyddu cywir yn nefnydd yr arian hwnnw.
- 4.30 Hefyd mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, cynnydd Cyngor Celfyddydau Cymru wrth weithredu argymhellion a godwyd a chynghori'r Cyngor ar faterion perthnasol.
- 4.31 Wrth wneud y gwaith hwn bydd y Pwyllgor yn bennaf ddefnyddio gwaith yr Archwiliad Mewnol, yr Archwiliad Allanol a swyddogaethau sicrwydd eraill ond ni fydd yn gyfyngedig i'r swyddogaethau archwiliol hynny. Bydd hefyd yn ceisio adroddiadau a sicrwydd oddi wrth gyfarwyddwyr a rheolwyr fel sy'n briodol a gall alw swyddogion i ddod i'w gyfarfod pan fo eu hangen yno.

5 Cyfeiriadau

Rhestrir dogfennau yn y drefn maent yn ymddangos gyntaf yn nhestun y Cod Arfer.

Dogfen	Ffynhonnell
Dogfen Fframwaith	Llywodraeth Cymru
Deddfau Loteri a Chyfarwyddiadau Ariannol	Llywodraeth Cymru
Siarter Frenhinol	Cyngor Celfyddydau Cymru
Cynllun Corfforaethol	Cyngor Celfyddydau Cymru
Cynlluniau Gweithredol	Cyngor Celfyddydau Cymru
Canllawiau i Aelodau	Llywodraeth Cymru
Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
Adroddiad Blynyddol	Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyfrifon Blynyddol	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Cyfarwyddyd Cyfrifon	Llywodraeth Cymru
Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth	Uned Rhyddid Gwybodaeth, Y Swyddfa Gartref
“Y Dreftadaeth Gyffredin Hon” 1990 Papur Gwyn (Gorchymyn 1200)	Adran yr Amgylchedd
Prosbectws i Ymgynghorwyr Cenedlaethol	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Cyfarwyddyd Ynghylch Treuliau i Aelodau'r Cyngor, Ymgynghorwyr Cenedlaethol ac Aelodau'r Pwyllgorau	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Standard of Best Practice for Openness in Executive NDPBs and NHS Bodies in the First Report of the Committee on Standards in Public Life (Gorch 2850 – I)	Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus
Gweithdrefn Ddisgyblu	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo Corff a Noddir gan Lywodraeth	Llywodraeth Cymru

Llawlyfr Staff Cyngor Celfyddydau Cymru	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Cyfarwyddyd Ynghylch Treuliau i Staff	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Polisi ar Ddatgelu er Lles y Cyhoedd (Polisi Chwythu'r Chwiban)	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)
Cynllun Cyhoeddi	Cyngor Celfyddydau Cymru
Polisi Codi Tâl o ran Rhyddid Gwybodaeth Cyngor Celfyddydau Cymru	Cyngor Celfyddydau Cymru
Gweithdrefn Asesu Grantiau	Cyngor Celfyddydau Cymru (Dogfen Fewnol)

I gael copïau o'r dogfennau hyn, ceisiwch y gwefannau canlynol:

www.celf.cymru

www.bris.ac.uk

www.ico.org.uk

www.gov.uk

Fel arall, cysylltwch â
Chyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL.

gwybodaeth@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Cynllun cyhoeddi enghreifftiol

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol hwn wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir ei fabwysiadu heb ei addasu gan unrhyw awdurdod cyhoeddus heb gymeradwyaeth bellach a bydd yn ddilys nes y nodir fel arall.

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn ymrwymo awdurdod i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a gwmpasir wedi ei chynnwys yn y dosbarthiadau o wybodaeth a grybwyllir isod, ble mae'r awdurdod yn cadw'r wybodaeth hon. Darperir cymorth atodol o ran diffinio'r dosbarthiadau hyn yn y llawlyfrau arweiniad i sectorau penodol a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun yn ymrwymo awdurdod:

- I gyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol neu ei darparu fel arall fel mater o drefn, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan yr awdurdod ac sydd o fewn y dosbarthiadau isod.
- I ddynodi'r wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod ac sydd o fewn y dosbarthiadau isod.
- I gyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol neu ei darparu fel arall fel mater o drefn, yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
- I gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau o ddarparu gwybodaeth benodol fel mater o drefn er mwyn i'r cyhoedd allu ei nodi a chael mynediad ati yn hwylus.
- I adolygu a diweddarau'r wybodaeth mae'r awdurdod yn ei darparu dan y cynllun hwn yn rheolaidd.
- I gynhyrchu atodlen o unrhyw ffioedd a godir am fynediad i wybodaeth sy'n cael ei darparu'n rhagweithiol.
- I ddarparu'r cynllun cyhoeddi hwn i'r cyhoedd.
- I gyhoeddi unrhyw set ddata a gedwir gan yr awdurdod wedi derbyn cais amdano, ac unrhyw fersiynau wedi eu diweddarau a gedwir, oni bai fod yr awdurdod yn hyderus nad yw'n briodol i wneud hynny; i gyhoeddi'r set ddata, ble fo'n rhesymol ymarferol, ar ffurf electronig y gellir ei hailddefnyddio; ac, os yw unrhyw wybodaeth yn y set ddata yn waith hawlfraint perthnasol ac mai'r awdurdod cyhoeddus yw'r unig berchennog, i ddarparu'r wybodaeth i'w hailddefnyddio dan drwydded benodedig. Diffinnir y term 'set ddata' yn adran 11(5) y Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth. Diffinnir y termau 'gwaith hawlfraint perthnasol' a 'trwydded benodedig' yn adran 19(8) y Ddeddf honno.

Dosbarthiadau o wybodaeth

Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

Gwybodaeth sefydliadol, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfansoddiadol a chyfreithiol.

Beth ydym yn ei wario a sut ydym yn ei wario

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant a ragwelir a gwir, tendro, caffael a chontractau.

Beth yw ein blaenoriaethau a sut mae pethau'n mynd rhagddynt

Gwybodaeth strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, archwiliadau ac adolygiadau.

Sut ydym yn gwneud penderfyniadau

Cynigion a phenderfyniadau polisi. Proses gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

Ein polisiâu a gweithdrefnau

Protocolau ysgrifenedig presennol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Rhestrau a chofrestrau

Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrau sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau a chofrestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig

Cyngor a chanllaw, llyfrynnau a thafenni, trafodion a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

Yn gyffredinol ni fydd y dosbarthiadau o wybodaeth yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae ei datgeliad wedi ei atal gan gyfraith, neu wedi ei eithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu fel arall yn cael ei hystyried yn gywir i fod wedi ei diogelu rhag datgeliad.
- Gwybodaeth ar ffurf drafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn rhwydd gan ei bod wedi ei chynnwys mewn ffeiliau sydd wedi eu rhoi mewn storfa archif, neu'n anodd cael mynediad atynt am resymau tebyg.

Y dull o ddarparu gwybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn.

Bydd yr awdurdod yn dynodi'n glir i'r cyhoedd pa wybodaeth sydd wedi ei chwmpasu gan y cynllun hwn a sut i'w chaffael.

Ble fo hyn o fewn cymhwyster awdurdod cyhoeddus, darperir gwybodaeth ar wefan. Ble nad yw'n ymarferol i ddarparu gwybodaeth ar wefan neu pan nad yw unigolyn eisiau cael mynediad i'r wybodaeth ar y wefan, bydd awdurdod cyhoeddus yn dynodi sut y gellir defnyddio dull arall o gaffael gwybodaeth a'i darparu yn defnyddio'r dulliau hynny.

Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd rhywfaint o wybodaeth ar gael trwy fynd i'w gweld yn bersonol yn unig. Ble dynodir y dull hwn, fe ddarperir manylion cyswllt. Trefnir apwyntiad i weld yr wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu yn yr iaith y'i cedwir neu mewn pa bynnag iaith arall y mae'n ofynnol i'w darparu yn ôl y gyfraith. Ble ceir gofyniad cyfreithiol i awdurdod gyfieithu unrhyw wybodaeth, bydd yn gwneud hyn.

Cedwir at rwmedigaethau dan ddeddfwriaeth anabled a gwahaniaethu ac unrhyw ddeddfwriaeth arall i ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau a fformatau eraill wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

Ffioedd y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddwyd dan y cynllun hwn

Diben y cynllun hwn yw darparu cymaint o wybodaeth â phosibl heb unrhyw anghyfleustra a chost i'r cyhoedd. Bydd angen cyfiawnhau taliadau i'r awdurdod ar gyfer deunydd a gyhoeddir fel mater o drefn gan sicrhau eu bod yn dryloyw ac y'i cedwir i isafswm.

Darperir deunydd a gyhoeddir ac y ceir mynediad ato ar wefan am ddim.

Gellir codi tâl am wybodaeth yn amodol i gyfundrefn codi tâl a ragnodwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gellir codi tâl am dreuliau sy'n codi megis:

- llungopïo
- postio a phacio
- costau sy'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i edrych ar wybodaeth

Gellir hefyd codi tâl am wybodaeth a ddarperir dan y cynllun hwn ble maent wedi eu hawdurdodi'n gyfreithiol, y gellir eu cyfiawnhau dan bob amgylchiad, yn cynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i fynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, ac yn unol â rhestr a gyhoeddwyd neu restrau o ffioedd sydd ar gael yn hwylus i'r cyhoedd.

Gellir hefyd codi tâl am ddarparu setiau data (neu rannau o setiau data) sy'n weithiau hawlfraint perthnasol i'w hailddefnyddio. Bydd y taliadau hyn yn unol â naill ai rheoliadau a wneir dan adran 11B y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu ddeddfiadau eraill.

Fersiwn 1.1
20130901

3

Os codir tâl, rhoddir cadarnhad o faint sy'n ddyledus cyn darparu'r wybodaeth. Gellir gofyn am dâl cyn darparu'r wybodaeth.

Ceisiadau ysgrifenedig

Gellir gofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus nad yw wedi ei chwmpasu gan y cynllun hwn yn ysgrifenedig, ac fe ystyrir ei darparu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Egwyddorion nolan – safonau mewn bywyd cyhoeddus

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd y unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn sicrhau elw ariannol na manteision sylweddol eraill iddynt eu hunain, eu teulu, neu eu ffrindiau.
Gonestrwydd

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu gosod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol na rhwymedigaeth arall i unigolion neu gyrff allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion am wobrau a manteision, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ddewis yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u camau i'r cyhoedd a rhaid iddynt eu cyflwyno eu hunain i'r sylw hwnnw sy'n briodol i'w swydd.

Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl am yr holl benderfyniadau a champau maent yn eu cymryd. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu gwybodaeth ond lle bydd diddordeb cyhoeddus ehangach yn gofyn yn glir am hynny.

Gonestrwydd

Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdrawiad sy'n codi mewn modd sy'n diogelu'r cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac enghraifft.

Polisi ar Gofrestru a Datgan Buddiannau

1. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i osgoi sefyllfaoedd lle gallai amheuon rhesymol o duedd godi ym meddwl y cyhoedd, neu unrhyw ran o'r cyhoedd. Er mwyn cael cymaint â phosibl o amhleidioldeb, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi sefydlu dwy weithdrefn fel a ganlyn:
 - Cofrestru buddiannau.
 - Rheoleiddio cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd.
2. **Cofrestru buddiannau.** Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal dwy Gofrestr Buddiannau – y naill ar gyfer aelodau a'r llall ar gyfer staff. Bydd copi o'r Gofrestr Buddiannau Aelodau ar gael i'r cyhoedd ei gweld ym mhob swyddfa Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystod oriau swyddfa arferol. Nid yw'r Gofrestr Buddiannau Staff ar gael yn gyhoeddus. Serch hynny gellid ei datgelu mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth.

Bydd yn ofynnol i bob aelod o'r Cyngor, ei Bwyllgorau, y Rhestr Genedlaethol o Gyngorwyr (yn rhai sy'n gwneud penderfyniadau neu'n cyngori yn unig) a staff gofrestru eu buddiannau wrth gael eu penodi ac ar ôl hynny ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Rhaid i'r safonau uchaf o briodoldeb ac uniondeb – y gwir a'r argraff ohonynt – fod yn gymwys i bob aelod, pob Ymgynghorydd Cenedlaethol, pob aelod o'r staff cyflogedig gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar bob achlysur. Felly ni all staff y Cyngor gael budd, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall, oddi wrth unrhyw arian a roddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. *Atelir hefyd aelodau o'r Cyngor, a hwythau'n ymddiriedolwyr elusennol, rhag ymelwa'n ariannol yn uniongyrchol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, heblaw i hyn gael ei awdurdodi ymlaen llaw'n ffurfiol, dan ddeddfwriaeth elusennol.*

Gall artistiaid sy'n Ymgynghorwyr Cenedlaethol ymgeisio ar gyfer grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru yn unigolion. Ond yn y fath achosion rhaid datgan hyn ac ni all yr unigolion hynny gyngori ar geisiadau eraill i'r cynllun penodol hwnnw am gyfnod lleiafysymiol o ddeudeng mis o ddyddiad cais yr unigolyn hwnnw.

Lle mae Ymgynghorydd Cenedlaethol yn gysylltiedig â sefydliad sy'n ymgeisio am arian (er enghraifft, yn aelod o'r bwrdd neu'n gyflogedig yno) ni fydd yr ymgynghorydd hwnnw'n cymryd unrhyw rhan arall yn y broses asesu ar gyfer y cais hwnnw. Dilynrir wedyn weithdrefn sefydliedig y Cyngor o ran Datgan Budd.

Rhaid archwilio'n benodol unrhyw fudd ariannol neu fel arall neu gysylltiadau personol sy'n codi yn ystod cyfnod y penodiad (neu gyflogaeth

yn achos aelodau o'r staff). Os gellid ei ystyried yn cynrychioli gwrthdaro buddiannau – gwir, posibl neu'r argraff a roddir – rhwng y dyletswyddau cyhoeddus a budd preifat aelod, ymgynghorydd cenedlaethol neu aelod o'r staff, dylid ei ddatgan.

Megis arweiniad, mae'r buddiannau sydd i'w cofrestru yw:

- Cyfarwyddiaeth ac aelodaeth Bwrdd Ymddiriedolwyr, Cyngor, Pwyllgor Rheoli neu gorff llywodraethu arall unrhyw gorff neu gwmni os yw'n ymgorfforedig neu wedi'i gyfansoddi ryw ffordd arall.
- Cyfran ariannol fel perchnogaeth tir neu eiddo, dal buddrannau mewn, neu gyflogaeth neu ymwneud o ran corff sy'n cael cymorth ariannol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru (neu y mae'n hysbys ei fod yn bwriadu gofyn am gymorth ariannol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru) os yw'n ymgorfforedig neu wedi'i gyfansoddi ryw ffordd arall.
- Cysylltiadau teuluol agos (boed drwy waed neu berthynas agos arall megis priodas, cyfraith gwlad, partneriaeth sifil neu dymor hir) ag unigolyn sy'n cael neu sy'n ceisio am gymorth ariannol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, neu ag unigolyn sydd â rhan (naill ai fel rheolwr neu weithiwr cyflogedig) mewn corff sy'n cael neu'n ceisio am gymorth ariannol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru os yw'n ymgorfforedig neu wedi'i gyfansoddi ryw ffordd arall.

Yn ogystal, dylai aelodau a staff gofrestru unrhyw fuddiant arall y gellid amau, yn eu barn hwy, ei fod yn dylanwadu ar eu barn – neu a allai effeithio ar eu gallu i ymddangos yn ddiuedd – ar faterion maent yn debyg o ymwneud â nhw yn rhinwedd bod yn aelod neu'n weithiwr i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Ystyrir bod buddiant sy'n dod i mewn i un o'r categorïau uchod yn 'parhau' am gyfnod lleiaf o flwyddyn ar ôl i'r person hwnnw ymadael â'r swydd a greodd y buddiant yny lle cyntaf.

Er enghraifft:

- Petai aelod o staff wedi ei gyflogi o'r blaen gan gorff sy'n cael neu'n ceisio am arian oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, mae'n ofynnol iddo/iddi ddatgan buddiant yn y corff hwnnw am o leiaf flwyddyn ar ôl iddi ymadael â chyflogaeth yno.
- Yn yr un modd, petai aelod o staff yn ymadael â chyflogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru i weithio i gorff sy'n cael neu'n ceisio am arian oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, bydd buddiant yn parhau am o leiaf flwyddyn o'r dyddiad y daeth ei gyflogaeth / ei chyflogaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i ben.

- 3.1 Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd. Mae dyletswydd ar aelodau a staff ddatgan unrhyw fuddiant neu fuddiannau sy'n dod o fewn yr ystod o fuddiannau a restrir ym mharagraff 2 uchod. Rhaid i'r buddiant gael ei ddatgan yr eiliad y daw i'r amlwg y gall fod yn berthnasol i'r pwnc sy'n cael ei drafod.
- 3.2 Cymryd rhan yn y Cyngor, Pwyllgorau neu gyfarfodydd penderfynu: Cyn Cyfarfodydd Cyngor, bydd rhestr wedi ei hanfon at bob aelod sy'n rhoi manylion buddiannau pob aelod ynghyd â phapurau'r cyfarfod. Yn y cyfarfod ei hun, nid oes rhaid i aelodau ond datgan unrhyw fuddiannau sy'n ychwanegol at y rhai sydd wedi eu rhestru'n barod i'w cofnodi yng Nghofrestr Fuddiannau a datgan unrhyw fudd o ran unrhyw fusnes penodol ar yr agenda. Rhaid i'r buddiannau gael eu datgan ar ddechrau'r cyfarfod a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Bydd yr un egwyddorion yn wir ar gyfer aelodau, ymgynghorwyr cenedlaethol a'r staff ym mhob pwyllgor a chyfarfod penderfynu sy'n eiddo i Gyngor Celfyddydau Cymru.
- 3.3 Glynna Cyngor Celfyddydau Cymru at bolisi rheoli cofnodion ac amserlen drefniadaeth a gyhoeddir. Cymer ein cofnodi i ystyriaeth ofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r arweiniad a gynigir gan yr Archifau Cenedlaethol. Felly ein polisi cyfredol yw cadw'r fath gofnodion am saith mlynedd neu'n hwy os oes angen (e.e. dan reoliadau'r Undeb Ewropeaidd).

Pan fydd buddiant yn dod i mewn i un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 2, ni fydd yr unigolyn o dan sylw yn cymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu a bydd yn ymadael ac aros y tu allan i ystafell y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth. Bydd cofnodion y cyfarfod yn cofnodi datgan y buddiant a'r adegau yr ymadawodd ac yr ailymunodd yr unigolyn dan sylw â'r cyfarfod. Nid oes rhaid i unigolyn sydd wedi datgan buddiant ymadael â'r cyfarfod os bydd Cadeirydd y cyfarfod yn dyfarnu mai er gwybodaeth yn unig ac nid er mwyn cael penderfyniad y mae'r mater yn cael ei godi ac na fydd unrhyw drafodaeth ar y wybodaeth gerllaw.

- 3.4 Yn ddarostyngedig i baragraff 3.5 isod, pan fydd y buddiant sydd wedi ei ddatgan yn dod i mewn i un neu ragor o'r tri chategori canlynol:
- cysylltiadau busnes neu gyfeillgarwch personol ag unigolion sy'n rhan o gorff sy'n cael cymorth ariannol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru (neu y mae'n hysbys ei fod yn ceisio am gymorth ariannol);
 - aelodaeth corff o'r fath lle bo'r corff hwnnw wedi ei wahardd drwy ei gyfansoddiad rhag dosbarthu dididendau neu fanteision ariannol eraill i'w aelodau;

- aelodaeth corff (fel grwp 'Cyfeillion') sy'n cefnogi corff o'r fath, ond heb unrhyw gyfrifoldeb drosto;
- nodir y datganiad o fuddiant yn y cofnodion ond fel arfer ni fydd gofyn i'r unigolyn dan sylw ymadael â'r cyfarfod neu ymatal rhag pleidleisio neu gyfrannu at y drafodaeth.

3.5 Serch hynny, os yw'n ymddangos i Gadeirydd y cyfarfod bod y buddiant sydd wedi ei ddatgan yn ddigon sylweddol i beri amheuaeth resymol ym meddwl y cyhoedd am allu'r unigolyn i wneud penderfyniad diduedd, gall y Cadeirydd ddyfranu na ddylai'r unigolyn dan sylw gymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu ac y dylai fod yn absennol o ystafell y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth. Mewn achos o'r fath bydd cofnodion y cyfarfod yn nodi'r adegau yr ymadawodd ac yr ailymunodd yr unigolyn dan sylw â'r cyfarfod. Bydd penderfyniad y Cadeirydd yn hyn o beth yn derfynol.

Dirprwyo Awdurdod gan y Cyngor i'w Bwyllgorau ac i Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau, gan gynnwys Grwpiau Swyddogion a'r Rhestr Genedlaethol o Gynghorwyr

1. Awdurdod

- 1.1 Cyngor yw ffynhonnell pob awdurdod ar gyfer camau a gymerir gan Gyngor Celfyddydau Cymru o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan y Siarter Frenhinol, y Ddogfen Fframwaith a'r dogfennau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'i gofrestru fel elusen.
- 1.2 Mae'n rhaid i'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i'w swyddogion a'r Pwyllgorau mae'n eu penodi i ymdrin ag agweddau penodol o'i waith. Mae'r memorandwm hwn yn nodi natur ac ystod y ddirprwyaeth honno.

2. Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl iddo'i hun i wneud penderfyniadau o safbwynt y canlynol (*Gweler hefyd Atodiad i'r Ddogfen Fframwaith Cyngor Celfyddydau Cymru*):

2.1 Ariannol

- Cyllideb flynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ac unrhyw newid sylweddol a gynigir yn dilyn hynny i'r gyllideb hon;
- dyraniad blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru o grantiau refeniw, ac unrhyw benderfyniadau i dynnu cymorth grant refeniw yn ei ôl o unrhyw gorff celfyddydol;
- cymeradwyo'r holl grantiau eraill o arian Cymorth grant, arian y Loteri ac arian y loteri cyfalaf, yn ôl lefelau presennol Awdurdod Dirprwyedig;
- caffael neu waredu adeiladau rhydd-ddaliad neu brydles;
- penodi a phwerau y rhai sy'n medru llofnodi i bob cyfrif banc a weithredir yn enw Cyngor Celfyddydau Cymru.

2.2 Cynllunio

- Cynllun Gweithredol blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ddarostyngedig i ofynion Llywodraeth Cymru.

2.3 Cyffredinol

- ymrwymiadau blynyddol newydd, meysydd newydd o weithgaredd a rhoi'r gorau i weithgareddau presennol lle bydd unrhyw un o'r rhain yn berthnasol;
- newidiadau sylweddol yn nulliau Cyngor Celfyddydau Cymru o weithredu;
- cwestiynau sy'n effeithio ar hawliau a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru o dan y Siarter Frenhinol a'r Ddogfen Fframwaith dan y gyfraith fel y bydd yn effeithio ar elusennau;
- cwestiynau sy'n effeithio ar y berthynas rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Llywodraeth;
- materion polisi eang a materion o ddiddordeb gwleidyddol mawr;
- swyddogaeth a ffurf Pwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol;
- cymeradwyo pwerau a ddirprwywyd i Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau.

2.4 Arolygu a gwerthuso

- gweithdrefnau ar gyfer arolygu a gwerthuso cyrff celfyddydol a chynlluniau grant Cyngor Celfyddydau Cymru;
- ystyried adroddiadau arfarnu llawn pob derbynnydd grant mawr a chrynodebau o bob adroddiad arfarnu arall.

2.5 Staff

- newidiadau mawr yn nhelerau ac amodau gwasanaeth staff;
- penodi staff ar lefel Cyfarwyddwr ac uwchlaw a newidiadau mawr i gyfrifoldebau'r lefel honno;
- cydnabyddiaeth o gyrrff cynrychioli staff.

3. Cyfrifoldebau Pwyllgorau a Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldebau canlynol i'w Bwyllgorau a'i Grwpiau sy'n Gwneud Penderfyniadau.

3.1 Ariannol

- cyngori'r Cyngor mewn perthynas â meysydd gwariant ar y celfyddydau sydd o fewn eu cylch gwaith;
- cymeradwyo gwiriadau (trosglwyddo cyllideb) o fewn y terfynau a bennir yn Llawlyfr Cyngor Celfyddydau Cymru;
- cymeradwyo yr holl grantiau eraill o arian Cymorth Grant, arian y Loteri a'r rheini mewn perthynas â loteri cyfalaf, yn unol â'r lefelau Awdurdod Dirprwyedig presennol.

3.2 Cynllunio

- argymhell Cynllun Gweithredol o fewn fframwaith polisiâu Cyngor Celfyddydau Cymru i'w gymeradwyo gan y Cyngor;
- gwneud argymhellion ynghylch datblygiad strategol a materion polisi o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel mewnbyn i Gynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

3.3 Mae'r Cyngor yn penodi ac yn dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg y dyletswydd:

- i helpu i gynnal safonau uchel a phriodoldeb wrth ddefnyddio arian Cyngor Celfyddydau Cymru ac annog atebolrwydd cywir am y defnydd o'r arian hwnnw;
- gwella ansawdd adroddiadau ariannol drwy adolygu datganiadau mewnol ac allanol ar ran y Cyngor;
- hyrwyddo hinsawdd o ddisgyblaeth a rheolaeth ariannol gyda'r bwriad o leihau'r cyfleoedd ar gyfer camreolaeth ariannol; a
- hybu datblygu systemau rheoli mewnol fydd yn helpu i fodloni'r Cyngor y bydd yn cyflawni ei amcanion a'i dargedau allweddol ac y bydd yn gweithredu mewn dull cywir ac effeithlon.

4. Swyddogion

- 4.1 Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Tîm Uwch Reolwyr, o weinyddu a rheoli busnes Cyngor Celfyddydau Cymru o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys:
- cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo ar gyfer gwariant gweithredu cyffredinol o fewn amcangyfrifon blynyddol a gytunwyd;
 - rhai lefelau o wariant ar gelfyddydau fel a nodwyd o dro i dro;
 - penodi staff islaw swydd y Prif Weithredwr. Yn achos penodi uwch staff, bydd y Prif Weithredwr yn cynnwys aelodau priodol o'r Cyngor yn y broses ddethol.
- 4.2 Mae gan y Prif Weithredwr hefyd ddyletswydd yn ei swyddogaeth fel swyddog cyfrifo i sicrhau bod y cyngor priodol yn cael ei roi i'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â phriodoldeb a chywirdeb ariannol, ac ar gyfer cadw cyfrifon cywir ac ar gyfer defnyddio'r adnoddau'n effeithlon ac effeithiol. Yn y cyswllt hwn mae'r Prif Weithredwr yn agored i'w holi ar y materion hyn gan Bwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Ty'r Cyffredin.

Cyfarwyddyd I'r staff – Lletygarwch a Rhoddion

Nodir y rheolau ynghylch Lletygarwch a Rhoddion i staff Cyngor Celfyddydau Cymru yn y Cod Arfer Gorau ac ailadroddir rhai adrannau isod mewn ynghyd â rhai enghreifftiau o'r sefyllfaoedd lle allant fod yn berthnasol. Atodir hefyd restr o gwestiynau penodol sydd wedi'u codi gan staff ac ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru iddynt.

1. Lletygarwch

'Pan fo aelodau o staff yn ymweld â sefydliad a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru (neu'n sefydliad sy'n ymgeisio am arian), ni ddylent gytuno i'r sefydliad ddarparu neu brynu prydau iddynt. Er hyn, nid oes angen ystyried darpariaeth o luniaeth ysgafn fel te a coffi, nac unrhyw letygarwch a fwriadwyd ar gyfer grwp ehangach, er enghraifft cinio gwaith a digwyddiadau fel perfformiadau gala neu nosweithiau agoriadol. Dylai aelodau sy'n amau a ddylent dderbyn gwahoddiadau i achlysuron o'r fath gysylltu â'r Prif Weithredwr.'

'Cedwir cofrestr letygarwch gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ganolog. Bydd pob aelod o'r staff yn nodi yn y gofrestr yr holl letygarwch a dderbyniwyd, ond nid oes angen i staff gofrestru mân letygarwch fel te, coffi neu luniaeth ysgafan arall a ddarparwyd yn nhrefn arferol gwaith. Dylai pob cofnod yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

*enw'r derbynydd a'i safle e/hi yng Nghyngor Celfyddydau Cymru;
enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ddarparodd y lletygarwch;
hyd a lled y lletygarwch a ddarparwyd;
natur yr achlysur pan ddarparwyd y lletygarwch.'*

Wrth ymweld â man gwaith cleientiaid am gyfarfodydd ayyb, mae'n dderbyniol i dderbyn te, coffi, cinio ysgafn neu bwffe pan fo galw am eich presenoldeb fel aelod o staff Cyngor Celfyddydau Cymru, e.e. cyfarfodydd y bwrdd, cyfarfodydd a drefnwyd ar gais Cyngor Celfyddydau Cymru, ayyb. Dylid osgoi ciniawau drud ac alcohol oherwydd y gallai trydydd parti ddehongli hyn fel cymhelliant, ond os cyfyd sefyllfa o'r fath dylid ei nodi yn y gofrestr luniaeth.

2. Rhoddion

'Ni all aelodau o staff dderbyn rhoddion o unrhyw fath dan unrhyw amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys rhoddion oddi wrth unigolyn neu sefydliad a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, rhoddion oddi wrth unigolyn neu sefydliad sy'n ymgeisio am arian, rhoddion oddi wrth ddarparwr sy'n ymgeisio am gytundeb neu roddion am ddim am ba reswm bynnag. Er hyn, ni ystyrir bod y canlynol yn rhoddion:

- a Rhoi tocynnau am ddim ar gyfer digwyddiadau y bydd gan yr aelod dan sylw ddiddordeb uniongyrchol ynddynt.
- b Er bod derbyn ail docyn ar gyfer partner, ac am ddigwyddiadau priodol ar gyfer plant, yn dderbyniol, ni ddylai aelodau dderbyn tocynnau am ddim ar gyfer grwpiau mwy o berthnasau neu ffrindiau.
- c Mae rhaglenni, catalogau, eitemau dathlu ac eitemau o werth isel yn dderbyniol naill ai lle y cânt eu dosbarthu i gynulleidfa eang mewn achlysur dathlu neu lle cânt eu derbyn ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru fel tystiolaeth o safon gwaith y sefydliad. '

Gellir derbyn y mathau o eitemau a ddisgrifir yn c. uchod os nad ydynt werth mwy na £10.00.

Os yw'n briodol, dylai staff roi eitemau fel poteli o win neu focs o siocled i'r rafflau a gynhelir yn achlysurol ar gyfer elusen.

Fel rheol cyffredinol, dim ond ar gyfer digwyddiadau a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru y dylai staff dderbyn tocynnau ar eu cyfer. Dylid cyfyngu'r rhain i ddau docyn fesul aelod o staff.

Dim ond os ydych yn mynychu digwyddiad yn rhinwedd eich swydd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a bod angen eich barn, neu'ch bod yn defnyddio'r digwyddiad er mwyn barnu safon gwaith y sefydliad/unigolyn y dylech dderbyn tocynnau ar gyfer unrhyw ddigwyddiad arall. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys llunio adroddiad asesiad ansoddol.

Ag eithrio c. uchod, ni ddylai unrhyw aelod o staff dderbyn unrhyw roddion eraill o unrhyw fath.

Cyngor Celfyddydau Cymru – Gweithdrefn Gwyno

Cyflwyniad

Mae'r gweithdrefnau yn yr adran hon yn sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn ymateb yn briodol i gwynion. Mae holl ddsbarthwyr y loteri yn y DU yn defnyddio'r weithdrefn hon. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'n gweithwyr, aelodau ein Cyngor, ein Pwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol, ac i bob agwedd ar ein gwaith, nid arian y loteri yn unig.

Ni fydd gwneud cwyn yn effeithio ar lefel y gwasanaeth y byddwch yn ei dderbyn gennym ni mewn unrhyw ffordd. Er enghraifft, os yw eich cwyn yn ymwneud â chais am gyllid, ni fydd hyn yn effeithio ar eich siawns o gael grant gennym ni yn y dyfodol.

Beth allaf gwyno amdano?

Gallwch gwyno os ydych yn credu:

- bod 'camweinyddu' wedi digwydd (er enghraifft, os ydym wedi oedi, gwneud camgymeriadau neu fetu â dilyn y gweithdrefnau yn ein proses ymgeisio);
- ein bod wedi methu â rhoi mynediad at wybodaeth i chi neu wedi rhoi cyngor neu wybodaeth anghywir i chi;
- nad ydym wedi eich trin yn gwrtais; neu
- ein bod wedi gwahaniaethu yn eich erbyn neu nad ydym wedi eich trin yn deg.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â chais am gyllid, ni allwn ystyried eich cais eto ond os:

- byddwn yn darganfod (drwy ddelio â chwyn) nad oeddem wedi dilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig wrth asesu eich cais;
- gallwch ddangos ein bod wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais; neu
- gallwch ddangos nad oeddem wedi cymryd sylw o wybodaeth berthnasol.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth, gallwch gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol (gellir cael eu manylion cyswllt mewn llyfrau ffôn neu ar www.citizensadvice.org.uk).

Byddwn yn cadw pob cwyn yn gyfrinachol. Os byddwch yn gwneud cwyn, byddwn yn eich trin â pharch, ac rydym yn disgwyl i chi drin ein staff yn yr un ffordd.

Yr hyn na allwch gwyno amdano

Gallwch deimlo'n siomedig os byddwn yn gwrthod eich cais am gyllid, ond ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn ein penderfyniad ynglŷn â rhoi grant os ydym wedi dilyn ein proses gwneud penderfyniadau yn gywir.

Ni allwch gwyno am ein polisiau cyhoeddedig neu unrhyw un o bolisiau'r llywodraeth. Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n polisiau, anfonwch y rhain at ein Prif Weithredwr.

Peidiwch â defnyddio'r weithdrefn gwyno hon i wneud cwyn am unrhyw dwyll yr ydych yn credu ei fod wedi digwydd. Dylech adrodd ar hyn dan Bolisi Chwythu'r Chwiban CCC.

Sut ydw i'n gwneud cwyn?

Cam un

Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn, cysylltwch â'r adran neu'r aelod o staff yr oeddech wedi delio ag ef/hi gyntaf, o fewn 3 mis i'r weithred neu'r penderfyniad y mae'r gŵyn yn cyfeirio ato. Byddant yn ceisio cywiro pethau. Efallai y byddwch yn ansicr ynglŷn â pha wybodaeth y dylech ei chynnwys neu'r ffordd orau o nodi eich cwyn. Dylech nodi'r ffeithiau mor glir â phosibl, mewn trefn resymegol, a chynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Yn gryno, beth mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef
- Pryd y digwyddodd
- Pwy oedd wedi delio â'r mater yn wreiddiol
- Yr hyn y byddech yn dymuno iddo ddigwydd er mwyn cywiro'r sefyllfa

Cofiwch gynnwys manylion a dyddiadau pwysig lle bo'n bosibl. Gallwn roi gwybodaeth i chi ynglŷn â sut y byddwn yn prosesu eich cwyn. Gobeithiwn y

byddwn yn gallu datrys cwynion cyn gynted â phosibl yn y modd hwn. Rhoddir ein manylion cyswllt yn yr adran 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cam dau

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb y byddwch yn ei dderbyn, gallwch fynd â hyn ymhellach drwy:

- ysgrifennu at ein Prif Weithredwr; neu
- anfon tâp sain neu CD at ein Prif Weithredwr.

Dywedwch wrthym:

- beth ddigwyddodd;
- pryd y digwyddodd;
- pwy oedd wedi delio â chi; a
- yr hyn y byddech yn dymuno i ni ei wneud er mwyn cywiro pethau.

Lle bo'r gŵyn yn ymwneud â chais am gyllid a'i bod yn disgyn o fewn y canllawiau a amlinellir uchod, bydd hefyd angen copïau o'r wybodaeth ganlynol:

- Y cais gwreiddiol am gyllid i CCC
- Unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau eraill a amgaewyd gyda'r cais
- Y llythyr penderfyniad a dderbyniwyd oddi wrth CCC
- Unrhyw lythyrau neu ddogfennau eraill a anfonwyd gan y naill ochr neu'r llall mewn perthynas â'r cais

Dywedwch wrthym hefyd os oes unrhyw beth y mae angen i ni ei wybod ynglŷn â sut i gysylltu â chi (er enghraifft, os hoffech i ni ateb drwy ffôn testun neu ar dâp sain).

Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn pedair wythnos i dderbyn ein hymateb i gam un.

Os na allwch wneud eich cwyn yn ysgrifenedig, ffoniwch ni ar 0845 8734 900.

Pryd y byddaf yn clywed gennych?

O fewn tri diwrnod gwaith i dderbyn eich cwyn, byddwn yn ysgrifennu atoch neu'n eich ffonio i ddweud ein bod wedi'i derbyn. Byddwn hefyd yn dweud

wrthych sut i gysylltu â'r person sy'n delio â'ch cwyn a phryd y gallwch ddisgwyl ateb.

Byddwch yn derbyn ateb i'ch cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os na allwn roi ateb llawn yn yr amser hwn, byddwn yn dweud wrthych pam a phryd yr ydych yn debygol o'i dderbyn.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddod i gyfarfod gyda ni i drafod eich cwyn yn fwy manwl. Byddai'r cyfarfod hwn fel arfer yn cael ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn eich cwyn. Byddem yn anfon cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod atoch ac ateb ffurfiol i'ch cwyn oddi wrth ein Prif Weithredwr. Bydd y gŵyn a'r canlyniad yn cael eu cofnodi.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r ffordd yr ydym wedi defnyddio ein grymoedd i wneud, gwrthod neu reoli cyllid, gallwch symud ymlaen i gam tri. Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn gweithredu unrhyw agwedd arall ar ein busnes, byddwn yn rhoi gwybod i chi am opsiynau eraill a allai fod yn agored i chi. Yn ein hymateb i gam dau, byddwn yn dweud wrthych a yw cam tri yn agored i chi.

Cam tri

Os nad ydych yn fodlon ag ateb ein Prif Weithredwr, gallwch gyfeirio eich cwyn at yr Adolygwr Cwynion Annibynnol (ACA).

Mae'r ACA yn ddiuedd a bydd yn gwrandao ar ddwy ochr y gŵyn.

Nid yw'r ACA yn rhan o'n sefydliad ac mae eu hymchwiliadau a'u hargymhellion yn annibynnol. Gallwch chi ofyn i'r ACA ystyried eich cwyn, neu gall ein Prif Weithredwr ofyn iddynt wneud hynny. Ni chodir tâl am ddefnyddio'r ACA. Bydd swyddfa'r ACA yn cysylltu â chi o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn eich cwyn.

Mae grym gan yr ACA i benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn neu beidio, a byddant yn esbonio eu rhesymau os byddant yn penderfynu peidio ag ymchwilio iddi.

Os bydd yr ACA yn ymchwilio i'ch cwyn ac yn darganfod ei bod yn gyfiawn, bydd ef neu hi yn argymhell ffyrdd o gywiro pethau, a sut i atal sefyllfa debyg yn y dyfodol. Bydd yr ACA yn adrodd o fewn tri mis, ac fel arfer yn gynt. Fel rheol, byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau y mae'r ACA yn eu hargymhell i'n gweithdrefnau presennol cyn gynted â phosibl.

Ni all yr ACA ystyried cwynion nad ydynt wedi bod drwy'r weithdrefn a nodir yn y ddogfen hon. Os ydych am i'r ACA ystyried eich cwyn, mae'n rhaid i chi ysgrifennu atynt, neu anfon tâp sain neu CD atynt, o fewn pedair wythnos i dderbyn ateb ein Prif Weithredwr.

Ni all yr ACA wrthdroi penderfyniadau cyllido neu wneud sylwadau ar neu newidiadau i'n cyfrifoldebau cyfreithiol a'n polisiau ar ddyfarnu grantiau.

I gysylltu â'r ACA, gweler 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ffyrdd eraill o wneud cwyn

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd camweinyddu gan sefydliadau cyhoeddus.

Dan y gyfraith, mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r gwasanaeth sifil, ac mae ganddo rymoedd eang i ymchwilio.

Nid yw'r Ombwdsmon fel arfer yn ymchwilio i gwynion os nad ydynt wedi bod drwy ein gweithdrefnau cwyno yn gyntaf.

Mae gwasanaethau'r Ombwdsmon yn rhad ac am ddim.

Gallwch gael taflen esboniadol ynglŷn â'r Ombwdsmon – gweler 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Adolygiad barnwrol

Mae adolygiad barnwrol yn golygu y bydd barnwr yn archwilio eich cwyn i weld a ydym wedi ymddwyn yn anghyfreithlon. Ni all y barnwr ddyfarnu bod yn rhaid i ni newid penderfyniad cyllido, ond gall ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad.

Cwynion am yr Iaith Gymraeg

Bydd cwynion sy'n ymwneud â materion yr iaith Gymraeg yn cael eu trafod yn y lle cyntaf gan Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg (GMIG) Cyngor Celfyddydau Cymru.

- Dylid cyfeirio cwynion yn ysgrifenedig at Gadeirydd GMIG a nodi 'cyfrinachol' arnynt.

- Byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn, i gydnabod eich cwyn a'ch hysbysu y bydd yn cael ei hystyried yng nghyfarfod nesaf GMIG. Lle bo'n bosibl, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn. Os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn eich hysbysu o'r rheswm ac yn nodi dyddiad.
- Yn y cyfarfod, bydd GMIG yn penderfynu a fydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, ac os bydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd. Bydd cadeirydd GMIG yn eich hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig.
- Bydd y gŵyn a'r canlyniad yn cael eu cofnodi gan GMIG er mwyn sicrhau dilyniant os eir â'r broses ymhellach.
- Os ydych yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch ofyn i Uwch Dîm Rheoli (UDRh) Cyngor Celfyddydau Cymru ystyried y mater.
- Os bydd yr achwynydd yn dal i fod yn anfodlon â'r canlyniad yn dilyn adolygiad yr UDRh, mae hawl ganddo/ganddi fynd at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Adolygwr Cwynion Annibynnol fel yr amlinellir uchod yng Ngham Tri y Weithdrefn Gwyno.
- Bydd canlyniad yr Adolygiad Annibynnol yn cael ei gofnodi gan GMIG er mwyn sicrhau cysondeb, os eir â'r broses ymhellach (gweler Adolygiad Barnwrol).

Rhyddid Gwybodaeth

Mae ein cynllun cyhoeddi yn rhoi manylion ynglŷn â pha wybodaeth yr ydym yn sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd fel rheol.

Os ydych eisiau gwybodaeth nad ydym yn ei chynnwys yn ein cynllun cyhoeddi, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i chi ofyn i ni amdani. Dan y Ddeddf, mae'n rhaid i ni roi'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani i chi oni bai nad yw wedi'i chwmpasu gan y Ddeddf (hynny yw, ei bod wedi'i 'heithrio'). Os yw'r wybodaeth yr ydych ei heisiau wedi'i heithrio, mae'n rhaid i ni ddweud wrthy'ch pam.

Os nad ydych yn cytuno â ni, dylech ddilyn camau un a dau o'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, gallwch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth adolygu ein penderfyniad.

Gallwch gael copi o'n cynllun cyhoeddi drwy fynd i www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk neu drwy ffonio 0845 8734 900.

I gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler 'Cysylltu' ar ddiwedd y ddogfen hon.

Eich gwybodaeth bersonol

Os ydych yn defnyddio ein gweithdrefn gwyno, rydych yn cytuno ein bod yn gallu defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn ei hanfon atom at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch cwyn. Gallwn hefyd roi eich gwybodaeth bersonol i bobl a sefydliadau eraill os oes yn rhaid i ni wneud hynny dan y gyfraith neu os ydych wedi rhoi caniatâd i ni.

Cyfle cyfartal

Rydym wedi ymrwmo i gyfle cyfartal ac rydym yn cymryd cwynion ynglŷn â gwahaniaethu o ddifrif.

Gallwn ddefnyddio cwynion ynglŷn â gwahaniaethu i adolygu ein polisiau a'n gweithdrefnau. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn trin pawb yn gyfartal.

Gallwn gofnodi gwybodaeth ynglŷn â chefnidir ethnig, rhyw ac anabledd pawb sy'n gwneud cwyn er mwyn hybu a chynnal ein hymrwymiad i gyfle cyfartal. Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol.

Sylwadau ac awgrymiadau

Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan eu bod yn ein helpu i wella ein gwasanaethau. Anfonwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau at y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Gwybodaeth. Mae'r manylion cyswllt yn yr adran 'Cysylltu â ni'.

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'n Prif Weithredwr a'n Rheolwr Cydymffurfiaeth a Gwybodaeth yn:

Cyngor Celfyddydau Cymru

Plas Bute

Caerdydd

CF10 5AL

Gwefan: www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Ffôn: 0845 8734 900

E-bost: gwybodaeth@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Gallwch gael cyfeiriadau ein holl swyddfeydd oddi ar ein gwefan, neu drwy ffonio 0845 8734 900. Gallwch hefyd wneud ymholiadau cyffredinol ar y rhif hwnnw.

Gallwch gysylltu â'r adolygwr cwynion annibynnol sy'n delio â chwynion ynglŷn â Chyngor Celfyddydau Cymru yn:

Swyddfa'r Adolygwr Cwynion Annibynnol

Fforwm y Loteri
7 Holbein Place
Llundain
SW1W 8NR

Ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â materion yr iaith Gymraeg, gellwch gysylltu â:

Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
Ffôn: 0845 6033 221

E-bost: post@comisiynyddygydraeg.org

I gael gwybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gallwch gysylltu â'r:

Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 700
Ffacs: 01625 524 510
E-bost: mail@ico.gsi.gov.uk

Gallwch gael taflen esboniadol ynglŷn â'r Ombwdsmon oddi wrth:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae,

Pencoed,

CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150

E-bost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk